

Arfarniad Nodweddion a Chynllun Rheoli Ardal Gadwraeth

Ardal Gadwraeth Heol y Prior

Contents

Crynodeb	1	Am ragor o wybodaeth neu gyngor, cysylltwch â Thîm Treftadaeth Adeiledig Cyngor Sir Gâr
1.0 Cyflwyniad	2	BHConsultations@carmarthenshire.gov.uk
2.0 Deall y Safle	5	
3.0 Datblygiad Hanesyddol	7	
4.0 Dadansoddi Gofodol	12	
5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad	23	
6.0 Dadansoddiad	31	
7.0 Arwyddocâd	32	
8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli	35	
9.0 Cyfleoedd	52	
Atodiadau	54	
Atodiad I: Llyfryddiaeth	55	
Atodiad II: Geirfa	56	
Atodiad III: Mapiau	58	
Atodiad IV: Adolygiad o'r Ffiniau	64	
Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig	69	<i>Cyfieithiwyd yr adroddiad hwn gan drydydd parti, ac nid oes gan Donald Insall Associates unrhyw gyfrifoldeb drosto.</i>

Mae'r adroddiad hwn a'r holl hawliau eiddo deallusol ynddo, ac yn codi ohono, yn eiddo i Donald Insall Associates neu'r cleient neu dan eu trwydded. Ni chaniateir atgynhyrchu'r adroddiad hwn ar ei hyd, neu unrhyw ran ohono, nac unrhyw ddyluniad, cynllun, dogfen arall nac unrhyw wybodaeth a geir ynddo, ar unrhyw ffurf heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Donald Insall Associates neu'r cleient fel sy'n briodol. Ni chaniateir cyhoeddi nac atgynhyrchu'r holl ddeunyddiau y mae'r hawliau eiddo deallusol wedi'u trwyddedu i DIA neu'r cleient ac unrhyw hawliau o'r fath sydd gan drydydd parti, ar unrhyw ffurf. Dylid gwneud unrhyw gais am ganiatâd i ddefnyddio deunydd o'r fath i gyhoeddi neu atgynhyrchu yn uniongyrchol i'r sawl sy'n meddu ar yr hawliau eiddo deallusol ynddo.

Crynodeb

Dynodwyd Heol y Prior yn Ardal Gadwraeth ym 1971. Mae'n briodol ac angenrheidiol bellach gwneud cofnod o arwyddocâd yr ardal hon, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a gwelliant yr ardal yn y dyfodol. Dyna yw nod y ddogfen hon.

Mae gan yr ardal hanes cyfoethog, yn dyddio'n ôl i anheddiad y Rhufeiniaid o'r dref hyd at ei datblygiad yn y 19eg Ganrif. Mae'r esblygiad hanesyddol wedi gadael gwaddol o ddiddordeb a chymeriad pensaernïol y dymunir eu cadw neu wella. Ystyrir y canlynol yn brif nodweddion o arwyddocâd yr ardal:

1. Lleoliad y dref Rufeinig Maridunum a'r amffitheatr
2. Lleoliad sawl adeilad a strwythur hanesyddol arwyddocaol, gan gynnwys y Priordy Canoloesol, y clafdy, a'r hen dderwen
3. Ei thopograffeg a'i gosodiad sy'n cynnig golygfeydd helaeth o'r AG, ohoni ac oddi mewn iddi
4. Cyfres o adeiladau trawiadol o bwysigrwydd cenedlaethol a lleol

Cesglir y dylai statws ardal gadwraeth yr ardal barhau, ond dylid gwneud pedwar newid i'r ffin er mwyn adlewyrchu ei chyflwr cyfredol a chynnwys ardaloedd arwyddocaol nad dynt wedi cael sylw dyledus yn y gorffennol.



1



2



3



4

1.0 Cyflwyniad

1.1 Diben a Chwmpas yr Adroddiad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Donald Insall Associates (Insall) i ymateb i friff gan Gyngor Sir Gâr (CSC) i baratoi Gwerthusiad o Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli ar gyfer Ardal Gadwraeth Heol y Prior yn nhref Caerfyrddin. Ariannwyd yr adroddiad hwn drwy grant gan y Gronfa Adfywio Cymunedol. Nod y prosiect hwn yw astudio ac asesu'r Ardal Gadwraeth gyfredol i ddeall a mynegi'r hyn sy'n ei gwneud yn arbennig, ystyried a yw'r ffiniau cyfredol yn briodol a chynhyrchu dogfen werthuso gadarn a fydd yn arwain rheolaeth, cadwraeth a datblygiad yr ardal yn y dyfodol. Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio gan berchnogion adeiladau sy'n dymuno gwneud gwaith ar eu heiddo, gan benseiri a datblygwyr wrth ystyried newid i adeiladau sydd eisoes yn bodoli a chan staff yr Awdurdod Lleol i'w cynorthwyo nhw i wneud penderfyniadau.

Mae 4 rhan i'r adroddiad hwn:

1. Deall yr ardal: Mae hyn yn cynnwys crynodeb o'r ardal, ei datblygiad hanesyddol a'i harwyddocâd.
2. Gwerthusiad o'r safle: Mae hyn yn nodi prif elfennau'r Ardal Gadwraeth (AG) a sut maent yn cyfrannu at ei chymeriad, ei hymddangosiad, a'i harwyddocâd.
3. Materion, bygythiadau a rheolaeth: Mae'r adroddiad yn parhau gydag arsylwadau ynghylch materion a bygythiadau penodol ac yn nodi cyfres o egwyddorion i helpu i arwain datblygiad y dyfodol gan sicrhau bod diddordeb arbennig y safle yn cael ei gadw a'i wella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.
4. Cyfleoedd: Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar gyfleoedd sydd wedi'u hadnabod i fod yn sail i'r adran derfynol.

1.2 Diffinio Ardaloedd Cadwraeth

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu chymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth.

Mae ardaloedd cadwraeth yn rhan unigryw o'r amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu dynodi gan Awdurdodau Cynllunio Lleol am eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Gallai diddordeb pensaernïol gynnwys enghraifft dda o fath penodol o anheddiad, cynllunio tref, neu grŵp o adeiladau o arddull ranbarthol neu leol unigryw neu o ansawdd pensaernïol dda. Mae diddordeb hanesyddol yn ymwneud ag esblygiad hanesyddol lleoliad, cyfnod penodol neu ddigwyddiadau cymdeithasol, economaidd neu ddiwylliannol, megis tai diwydiannol cynnar ac ardaloedd lle mae tystiolaeth archaeolegol, pensaernïol neu dopograffeg o'r gwreiddiau a'r prif gyfnodau datblygu sydd wedi goroesi'n arbennig o dda. Mynegir cymeriad drwy bethau fel arddull adeiladu, deunyddiau, strwythur strydoedd, defnydd tir a chyfnodau datblygu.

O fewn y system gynllunio, caiff ceisiadau i newid AG eu hasesu i ddeall yr effaith y gall y datblygiad hwnnw ei chael ar arwyddocâd. Arwyddocâd yw un o egwyddorion arweiniol Polisi Cynllunio Cymru 2021 (PPW). Gall hwn fod yn arwyddocâd archaeolegol, pensaernïol, artistig, neu hanesyddol a gall ddeillio o bresenoldeb ffisegol ac o'i osodiad hefyd.

Weithiau, rhoddir rheolyddion rheoliadol ychwanegol ar waith o fewn ardaloedd cadwraeth, gan gynnwys dymchwel, gwaith i goed a hysbysebion. Mae gofyn i bob penderfyniad cynllunio gael ei asesu yn erbyn arwyddocâd yr ardal i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal a'i gwella pryd bynnag mae hynny'n bosibl.

Mae'r ddogfen hon yn nodi arwyddocâd a chymeriad yr ardal i gynorthwyo'r rheini sy'n gwneud cais am newid neu'n gwneud penderfyniadau ddeall achosion y gall cynigion effeithio ar hyn a phennu a yw hwn yn newid cadarnhaol neu negyddol.

1.3 Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer dynodi a rheoli ardal gadwraeth wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, a pholisi a chanllawiau cynllunio'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys:

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 Chwefror 2021

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer de-orllewin Cymru, Medi 2021

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021

Mae crynodeb a dolenni i'r dogfennau hyn i'w cael mewn atodiad i'r ddogfen hon.

1.4 Datganiad Dull

Ymgwymerwyd â'r canlynol drwy baratoi'r adroddiad hwn:

1. Adolygiad o wybodaeth gyfredol


Cyfeiriwyd at nifer o ffynonellau i ddeall diddordeb hanesyddol a phensaernïol yr ardal, gan gynnwys dogfennau wedi'u cyhoeddi a heb eu cyhoeddi, cofnodion cynllunio, canllawiau a deddfwriaethau wedi'u mabwysiadu a rhai newydd ac adnoddau ar-lein.

2. Casglu Gwybodaeth

Ymwelodd Insalls â'r safle fis Chwefror a Mawrth 2022 i ymgymryd â dadansoddiad nodweddion a gofodol. Cafodd adeiladau a safleoedd eu gweld o fannau sy'n hygyrch i'r cyhoedd ac ni chawsant eu hymchwilio'n fewnol.

3. Ymgysylltu â'r Gymuned

Nod allweddol y prosiect yw deall a mynegi'n glir yr hyn mae'r gymuned leol yn ei werthfawrogi am yr ardal. Ymgysylltwyd â rhanddeiliaid cymunedol a staff perthnasol yn y Cyngor wrth ddrafftio'r ddogfen hon ac mae hyn wedi helpu i ffurfio ei chasgliadau. Dylid ystyried y ddogfen hon yn fan cychwyn ar gyfer trafod a bydd yn cael ei rhannu ymhellach gyda rhanddeiliaid cymunedol perthnasol. Rydym yn croesawu adborth i ddeall safbwyntiau lleol o werth nodweddion trefluniau, eu problemau a'u cyfleoedd.



— Finiau'r Ardal Gadwaeth Heol y Prior

2.0 Deall y Safle

2.1 Crynodeb o Arwyddocâd a Chymeriad

Mae prif nodweddion yr ardal a'r eitemau o arwyddocâd wedi'u crynhoi isod (gweler rhestr hirach yn adran 7).

- Patrwm stryd hanesyddol sydd wedi goroesi i raddau helaeth o wreiddiau Rhufeinig y dref drwy'r twf a welwyd yn y 18-19eg Ganrif
- Lleoliad hanesyddol Maridunum a Hen Gaerfyrddin
- Yn cynnwys henebion cofrestredig yr amffitheatr Rufeinig a'r Hen Briordy
- Potensial archaeolegol uchel
- Sawl cysylltiad â digwyddiadau a phobl nodedig gan gynnwys yr Hen Dderwen
- Sfle'r cyn-glafdy
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i'r ardal, ohoni a thrwy'r ardal, oherwydd ei thopograffi
- Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol
- Cofeb ryfel a'r tir cyhoeddus cysylltiedig
- Teimlad cryf o dir caeedig gyda rhannau o wyrddni, cipolygfeydd a golygfeydd ehangach
- Ffiniau hanesyddol sydd wedi goroesi, gan gynnwys gwaith metel a rwbel cerrig
- Yn dangos twf y dref yn y 18fed i ddechrau'r 20fed Ganrif
- Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig wedi'u gosod yn ôl o ymyl y stryd



Amffitheatr




Y gyffordd yn Lôn yr Hen Dderwen

2.2 Lleoliad

Mae AG Tref y Prior i'r dwyrain o Dref Caerfyrddin sef tref sir Gaerfyrddin a'r dref hynaf yng Nghymru lle mae pobl wedi byw ynddi yn barhaus. Ffiniau'r AG yw AG Tref Caerfyrddin i'r gorllewin ac AG Y Rhodfa/ Y Llannerch i'r de. Mae ffurf yr AG wedi'i sefydlu'n bennaf gan ei strwythur hanesyddol sy'n parhau i fod yn gyflawn i raddau helaeth, ac yn ffurfio prif dramwyfa drwy ganol y dref o'r dwyrain i'r gorllewin, gyda'r adeiladau yn wynebu'r strydoedd ar y cyfan. Mae amffitheatr Rufeinig ar ffin ddwyreiniol yr AG.

2.3 Topograffi a lleoliad

Mae'r dref wedi'i lleoli ar lan ogledd-orllewin yr afon Tywi, oddeutu naw milltir oddi wrth Fae Caerfyrddin ac yno y ceir rhai o olygfeydd gorau Dyffryn Tywi oherwydd ei thopograffi, ei lleoliad sy'n codi'n serth i'r gogledd ac yn darparu golygfeydd panoramig o'r cefn gwlad tu hwnt. Mae Heol y Prior ei hun yn weddol wastad, yn ffinio ag AG Tref Caerfyrddin i'r gorllewin ac yn cynnig golygfeydd helaeth rhyngddynt, yn ogystal â'r tirlun i ddwyrain y dref. Mae'r toriadau a'r cyffyrdd niferus â ffyrdd eilaidd i'r gogledd a'r de yn cynnig golygfeydd o'r dirwedd ar hyd y stryd gyfan.



3.0 Datblygiad Hanesyddol

Crynodeb o Ddatblygiad Hanesyddol Tref Caerfyrddin

Maridunum

Y gred gyffredinol yw mai dyma dref hynaf Cymru. Cafodd Caerfyrddin ei adeiladu ar y ffordd Rufeinig, lle'r oedd dwy gangen yn dod ynghyd. Yn dwyn yr enw Maridunum ('Caer y Môr'), mae'r anheddiad cynharaf yn dyddio'n ôl i oddeutu AD75 ac mae'r dref wedi bod yn ganolfan weinyddol bwysig ac yn lleoliad strategol ers y cyfnod hwn. Cofnodwyd y dref yn yr Antonine Itinerary, cofrestr o orsafoedd Rhufeinig a phellteroedd ar hyd ffyrdd, a chredir bod yr orsaf wedi'i leoli ar y safle lle'r adeiladwyd y castell yn ddiweddarach. Yr amffitheatr Rufeinig yn AG Heol y Prior yw un o saith amffitheatr sydd wedi goroesi ym Mhrydain a dim ond dwy yng Nghymru Rufeinig. Sefydlwyd harbwr i orllewin y dref gyda phont i lawr yr afon er mwyn gallu croesi'r Afon Tywi. Ar ôl ymadawiad y Rhufeiniaid, daeth y dref yn brif ganolfan llywodraeth de Cymru. Credir bod y dref Rufeinig wedi ymgorffori'r rhan fwyaf o AG Heol y Prior, sydd wedi'i lleoli yn y pridd a'r rhagfuriau mawn yn arwain at ffos allanol, mae'n debygol wedi'i lleoli i'r gorllewin yn eglwys San Pedr, i'r dwyrain i Lôn yr Hen Dderwen, i'r de i lannau'r afon Tywi ac i'r gogledd o gwmpas Waun Dew. Mae olion amddiffyniadau'r dref yn dal i fod yn weledol yn y cloddwaith ym Mharc Hinds ac mae'r cwmpas i'r dwyrain yn dangos lle mae'r rhagfur wedi disgyn tuag at lan yr afon.

Mae'n debygol bod yr Amffitheatr Rufeinig wedi'i lleoli y tu hwnt i amddiffyniadau'r dref ac hyd heddiw dyma'r unig ddarn cydnabyddedig o Gaerfyrddin Rufeinig sy'n goroesi uwch ben y tir. Credir ei bod yn dyddio'n

ôl rhwng y Ganrif 1af a'r 4edd Ganrif a thybir bod lle i oddeutu 4500-5000 o bobl ynddi sy'n dangos maint y dref Rufeinig yn ei hanterth. Roedd gan yr amffitheatr strwythur eliptaidd wedi'i adeiladu drwy dorri i mewn i'r llechwedd ogleddol a chan ddefnyddio'r pridd a gloddiwyd i wneud clawdd deheuol yr ardal eistedd. Darganfuwyd yr amffitheatr ym 1944 pan ddechreuodd syrffêwr bwrdeistref Caerfyrddin, George Owens, ymddiddori mewn tir gwag hirgrwn lle'r oedd cynlluniau i adeiladu stad newydd o dai. Ym 1968, profwyd mai amffitheatr oedd hon ar ôl gwneud gwaith cloddio archaeolegol.

Yr Oesoedd Canol

Yn ystod yr Oesoedd Canol, daeth yr anheddiad yn adnabyddus fel Llanteulyddog ac yn un o'r saith brif sedd yn Nyfed, un o saith teyrnas yng Nghymru a ddaeth i foddolaeth ar ôl anheddiad y Rhufeinwyr. Mae'n debygol bod eglwys, anheddiad mynachaid mwy na thebyg, lle'r oedd y Cymry yn preswyllo cyn yr Eingl-Normaniaid, y cyfeirir ati erbyn hyn fel Hen Gaerfyrddin, wedi'i sefydlu o San Pedr i'r dwyrain ar hyd Heol y Prior, gan ddilyn yr anheddiad Rhufeinig i raddau helaeth, neu wedi'i hymgorffori ynddi. Adroddwyd bod marchnad a 100 o diroedd bwrdais wedi'u sefydlu yno, yn ogystal â thŷ crefyddol wedi'i ymroi i Sant Teulyddog. Rhoddwyd yr eglwys i Battle Abbey cyn diwedd y 11eg Ganrif ac ymddengys mai cell fynachaid ydoedd. Gadawodd y mynachod pan drosglwyddwyd y berchnogaeth i Esgob Tyddewi ym 1125 a sefydlwyd Tŷ y Canoniaid Awgustaidd yn eu lle. Diddymwyd



Cynllun tybiedig o'r dref yn y 12fed ganrif



Cynllun tybiedig o'r dref yn y 15fed ganrif

hyn ym 1536 pan oedd 12 canon ac oddeutu 80 o bobl yn ymweld â'r Priordy bob dydd. Wedi'r diddymiad, cafodd rhannau o'r adeilad eu trosi'n dŷ. Credir mai Llyfr Du Caerfyrddin, a gafodd ei ysgrifennu yn y Priordy, yw'r llawysgrif cynharaf i'w ysgrifennu'n Gymraeg yn llwyr, ac ymhlith darnau eraill o farddoniaeth, mae'n cynnwys chwedloniaeth Arthuraidd.

Cydnabuwyd pwysigrwydd strategol y dref drwy adeiladu'r castell oddeutu 1094, er mai'r cofnod cyntaf o dystiolaeth bod rhywun wedi byw yn y castell yw

1116 gan William o Gaerloyw. Wedi'i leoli ym mhwynt croesi isaf Afon Tywi ar deras uchel uwchben, daeth y castell yn ganolfan i rym Lloegr a'r arglwyddiaeth Eingl-Normanaidd leol yn ne-orllewin Cymru, gyda thref 'Caerfyrddin Newydd' yn datblygu o'i gwmpas.

Ymddengys bod y castell wedi dioddef ymosodiadau lu yn ystod gwrthryfeloedd rhwng y Cymry a'r Saeson. Wedi'i ddinistrio sawl tro, cafodd ei ail-adeiladu ym 1223 pan gafwyd caniatâd i adeiladu wal a murflychau, gan wneud Caerfyrddin yn un o'r trefi muriog hynafol cyntaf yng Nghymru.

Dechreuodd y Brodyr Ffransisgaidd sefydlu yn y dref yn y 13eg Ganrif ac erbyn 1284 roedd ganddynt eu hadeiladau Brodordy eu hunain ar Stryd Llammas, lle mae'r ganolfan siopa erbyn hyn. Roedd y Brodordy cloestr dwbl yr un mor fawr ag unrhyw frodordy taleithiol ym Mhrydain. Diddymwyd ef ym 1538 ynghyd â'r Priordy.

Ffynnodd y dref yn y 13eg Ganrif oherwydd hawliau a breintiau a gyflwynwyd i'r dref gan Henry II a'r Brenin John yn ddiweddarach. Ym 1353, datganwyd Caerfyrddin yr unig Borthladd Stapl yng Nghymru, sy'n

dangos pwysigrwydd strategol y dref yng Nghymru. Lledaenodd y pla du drwy'r dref rhwng 1347-1350 a gostyngodd poblogaeth y dref yn sylweddol yn hanner olaf y 14eg Ganrif.

15fed – 16eg Ganrif

Ym 1415, cymeradwywyd grant i ymestyn waliau'r dref i gynnwys y tiroedd bwrdaes ar Stryd y Brenin a Stryd Spilman fel bod Hen Gaerfyrddin a Chaerfyrddin Newydd drws nesaf i'w gilydd.

Yn y cyfnod hwn, daeth y Castell yn ganolfan llywodraeth frenhinol yn ne Cymru. Edmund Tudor, tad Harri'r VII, oedd yn meddiannu'r castell yn ystod Rhyfeloedd y Rhosynnau, er bod milwyr lorcaidd wedi goresgyn y castell ym 1456, gan garcharu Edmund a fu farw fel carcharor yno. Wedi'i gladdu yn y Brodordy, symudwyd ei fedd yn ddiweddarach wedi'r diddymiad.

Sefydlwyd yr ysgol ramadeg rydd ym 1587 gan Elizabeth I a ddyfarnodd hi yn siarter ymgorffori, wedi'i lleoli ar safle Clafdy Caerfyrddin ar Heol y Prior. Cynyddwyd y gwaddol gan y Parchedig William Jones, a gyflwynodd tŷ a gardd a oedd ynghlwm â'r ysgol. Mae sawl gweinidog adnabyddus wedi bod ynghlwm â'r ysgol, gan gynnwys John Jones, trefnwr y Geiriadur Groeg a Saesneg cyntaf, a Dr Abraham Rees, awdur y Gwyddoniadur.

Dirywiodd y porthladd erbyn diwedd y Canoloesoedd oherwydd bod yr afon yn llenwi â llaid, ac yn achosi i gychod mawr golli eu llwyth i lawr yr afon. Roedd pedair melin yn gwasanaethu'r dref yn y cyfnod hwn. Gyda'r Priordy a'r Brodordy wedi dod i ben, rôl lywodraethol y Castell yn dod i ddiwedd ei hoes, ac amlygrwydd

diwydiant yn y de-ddwyrain, collodd Caerfyrddin ei statws fel tref fwyaf a phwysicaf Cymru, ond parhaodd i ffynnu er gwaethaf hynny.

17eg – 18fed Ganrif

Ar ôl y Deddfau Uno, daeth Caerfyrddin yn bencadlys cyfreithiol Llys y Sesiwn Fawr de-orllewin Cymru ac fe'i gwnaethpwyd yn sir gorfforaethol gan Harri'r VIII, a gadarnhawyd gan James I ym 1604 dan y dynodiad 'Sir bwrdeistref Caerfyrddin'. Yn ystod y Rhyfel Cartref, amddiffynnwyd y dref gan gaer helaeth, y mae rhannau ohoni yn goroesi i orllewin y dref ac yn ôl Cambria Archaeology, dyma'r enghreifftiau gorau o gaer tref Frenhinol sydd wedi goroesi ym Mhrydain.

Ym 1648, dychwelwyd Castell Caerfyrddin i ddwylo'r senedd a gorchmynnodd Cromwell iddo gael ei ddymchwel. Bu yn y cyflwr hwnnw hyd at 1787 pan gafodd y brif ran ei hymgorffori yng ngharchar newydd y sir, a gafodd ei gwblhau ym 1792 gan John Nash a'i chwalu ym 1936. Cymeradwywyd Siarter Bwrdeistref newydd fis Gorffennaf 1764 gan George III, gan greu cyngor cyffredin i'w ethol gan y maer a'r bwrdeiswyr. Yn y cyfnod hwn, prif ddiwydiannau'r dref oedd amaethyddiaeth a masnachau cysylltiedig, gan gynnwys gweithgynhyrchu gwlân. Er nad ei thynged oedd dilyn ôl-troed trefi diwydiannol eraill, roedd yn ganolfan cynnar ar gyfer gweithgynhyrchu tunplat, gyda ffwrnais chwyth a melinau tun yng nghanol y 18fed Ganrif ar gyn-safle'r Priordy, a arweiniodd at yr adeiladau a oedd ar ôl yn cael eu dymchwel. Pan adeiladwyd y rheilffordd yng nghanol y 19eg Ganrif, cafwyd gwared ar unrhyw olion a oedd yn parhau uwch ben y tir.

Ym 1659 neu 1660, plannwyd coeden dderw, o'r enw Derw Merlin neu'r Hen Dderwen ar gornel Lôn yr Hen Dderwen a Heol y Prior, gan ysgolfeistr i ddathlu dychweliad Brenin Charles II Lloegr i'r orsedd. Yn ôl y sôn, petai'r dderwen yn cwmpo, byddai trychineb yn taro'r dref. Credir y bu farw'r dderwen ym 1856, a symudwyd cangen i Amgueddfa'r Sir ym 1951. Ym 1978, cafwyd gwared ar y boncyff a oedd yn dal i fod yno ac fe'i rhoddwyd ar ddangos yn Neuadd Ddinesig San Pedr yn Sgwâr Nott. Plannwyd coeden arall yn 2009.

19eg Ganrif

Y porthladd sy'n gyfrifol am lwyddiant y dref i raddau helaeth. Yn y 1720au, cofrestrwyd 57 llong yng Nghaerfyrddin, ac roedd tunelledd y porthladd ar yr adeg honno ddwywaith yn fwy na Chaerdydd. Adeiladwyd llongau yng nghyffiniau lleoliad Canolfan y Cei heddiw. Cynyddodd masnach drwy'r porthladd yn y 1840au, cyn i Gaerfyrddin ymuno â'r rhwydwaith reilffordd. Cafodd Caerfyrddin ei hystyried yn dref porthladd yn ystod y 1860au, ond cafodd ei bwrw i'r cysgod yn sgil porthladdoedd arfordirol lle'r oedd cychod mwy yn gallu docio. Daeth y cwch masnachol olaf i borthladd Caerfyrddin ym 1938. Er y cawsant eu hadeiladu yn y 1550au, cafodd waliau'r cei a oedd yn dal i sefyll eu hailadeiladu i'w ffurf bresennol yn ystod y 19eg Ganrif.

Adeiladwyd Clafdy Caerfyrddin ar gyn-safle yr ysgol ramadeg ym 1857-8 gan William Wesley Jenkins o Lundain. Cafodd ei hymestyn sawl gwaith rhwng 1899 a 1934. Yn y pendraw, daeth i feddiant y GIG ym 1948, ac felly y bu hyd ddiwedd yr 20fed Ganrif pan gaeodd ei drysau. Cafodd yr estyniadau i du cefn yr adeilad eu dymchwel yn 2002 a throswyd yr adeilad i floc o fflatiau.



Heol y Prior Map OS - 1888 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

Mae mapiau degwm o ddechrau'r 19eg Ganrif yn dangos bod strwythur yr AG yr un fath â'r hyn a welwn heddiw, gyda Heol y Prior yn mynd o'r dwyrain i'r gorllewin, a'r Rhodfa, Lôn yr Hen Dderwen a Heol yr Hen Brior, a oedd yn arwain i'r hen Briordy, i'r gogledd a'r de. Gellir gweld tiroedd bwrdaes ar hyd dwy ochr y stryd a rhaiadeiladau bob hyn a hyn ar hyd glan yr afon. Yn y cyfnod hwn, mae bwlch mawr i ymyl y stryd rhwng Y Rhodfa a Lôn yr Hen Dderwen.

Mae mapiau OS o ddiwedd y 19eg Ganrif yn dangos strwythur tebyg, ond mae'r clafdy, yr ysgol ramadeg, y siediau injan a'r rheilffordd yn amlwg erbyn hyn, yn ogystal â'r gweithiau tunplat a'r hen bwl graean i ffin ddwyreiniol yr AG, gyferbyn â safle'r amffitheatr. Mae nifer o fylchau yn dal i fod i ymyl ddeheuol y stryd, lle mae Heol Penuel erbyn hyn.

Cafodd Rhodfa'r Gogledd ei llenwi â datblygiadau o ddechrau'r 20fed Ganrif ymlaen, ac roedd wedi'i hanheddu'n llwyr erbyn hanner olaf yr 20fed Ganrif. Ar ddechrau'r 20fed Ganrif, rhestrir clafdy, ysgol, pedwar capel, tri thafarn a swyddfa'r post. Datblygwyd Y Rhodfa ddiwedd y 19eg ganrif neu ar ddechrau'r 20fed Ganrif.

Adeiladwyd cofeb i'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf y tu blaen i'r hen glafdy yng nghanol yr 20fed Ganrif.

Preswylwyr enwog

Mae sawl preswylwr enwog i Gaerfyrddin, gan gynnwys y Parch Lewis Bailey, awdur 'Practice of Piety'; ganwyd Syr Walter D'Evereaux, yr Iarll Essex cyntaf, yng Nghaerfyrddin ac mae wedi'i gladdu yn Eglwys San Pedr; dywedir bod Syr Richard Steele wedi cyfansoddi



Heol y Prior Map OS - 1907 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

ei ddrama 'The Conscious Lovers' yn ei gartref yn y dref ac mae yntau hefyd wedi'i gladdu yn San Pedr. Chwaraeodd y dref gryn rôl yn nyfodiad anghydfurfiaeth yng Nghymru, gyda nifer o brif bersonoliaethau'r mudiad wedi'u geni yma, a daeth yn gartref i'r llyfr masnach Cymraeg ddiwedd y 19eg Ganrif. Mae Syr Rhys ap Thomas, un o brif gynghreiriaid Harri Tudur ac arwr y Frwydr Bosworth, a Charlotte Dalton, wyres George III, wedi'u claddu yn Eglwys San Pedr. Ar Heol y Prior, yn ôl y chwedl cafodd yr Hen Dderwen ei phlannu gan ddisgynydd i Adams, Arlywydd America. Yn ogystal, mudodd y Parch Joshua Watkins a sefydlodd gapel Annibynnol Penuei, y Parch MJ Rhys, i America ac mae'n bosibl mai ef oedd yr unigolyn cyntaf o Ewrop i groesi'r cyfandir.

Heol y Prior Erbyn Heddiw

Prin yw olion Maridunum a Hen Gaerfyrddin. Yr amffitheatr yw un o'r rhai strwythurau uwch ben y tir mwyaf amlwg i'r llygaid o'r cyfnod hwnnw.. Y brif nodwedd sydd wedi goroesi o'r Priordy yw'r porthdy sy'n dyddio'n ôl i ddiwedd y Canoloesoedd, bellach wedi'i rannu'n bedwar tŷ, ond mae'r fynedfa fwaog yn dal i fodoli. Mae rhan fechan o'r eglwys wedi'i chadw yn y wal ar gornel ddeheuol caeau chwarae Parc Hinds ac mae rhai sylfeini a rhannau is o'r mur cyffin yn y wal gogledd-orllewin. Mae elfennau eraill, gan gynnwys rhan ddwyreiniol y fynachlog a rhan o fynwent y mynach wedi'u canfod drwy waith cloddio, ac mae'n debygol bod olion archaeolegol yn parhau o dan y tir o fewn gerddi'r rhandiroedd a Pharc Hinds, gan gynnwys rhai yn dyddio'n ôl i'r Dref Rufeinig. Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau a welir heddiw yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif a rhai yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 18fed

Ganrif. Er bod arwyddion cynharach o ddatblygiad yr AG wedi'u colli oherwydd ail-ddatblygu, mae strwythur y stryd, yn dilyn yr un anheddiad Rhufeinig gwreiddiol, wedi'i gadw ac yn parhau i bennu'r modd yr ydych chi'n cael profiad o'r ardal ac yn symud oddi mewn iddi.



Heol y Prior Map OS - 1954 (Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd National Library of Scotland)

4.0 Dadansoddi Gofodol

4.1 Golygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni

Dylai effaith datblygiadau arfaethedig gynnwys styriaeth o olygfeydd i'r AG, oddi mewn iddi ac ohoni. Nodir y canlynol heb eithrio manau gwylio eraill a gellir eu gweld ar y map canlynol.

Golygfeydd stryd

Mae natur hir a gweddol syth Heol y Prior a'r ffyrdd eilaidd i'r gogledd a'r de yn caniatáu golygfeydd heb eu hamharu ac yn galluogi pobl weld yr adeiladau gyda'i gilydd, er bod tro yn y ffordd ar gyffordd Lôn yr Hen Dderwen yn tarfu ar hyn yn y pen dwyreiniol. Gallai casgliad o fân newidiadau a datblygiadau mawr ar hyd y ffordd hon amharu ar y nodwedd hon. Gellir gweld hyn eisoes lle mae adeiladau wedi'u gwaredu o ymyl y stryd, gan arwain at dalcenni gwag, yn ogystal â datblygiadau cyfoes mwy sy'n tarfu ar siâp y toeau. Byddai hyn hefyd yn cynnwys datblygiadau a fyddai'n rhwystro'r golygfeydd hyn sydd y tu hwnt i'r AG. Fel arfer, mae adeiladau mawr wedi'u gosod yn ôl o ymyl y stryd er mwyn i chi eu darganfod wrth gerdded o'r dwyrain i'r gorllewin. Mae cyffyrdd a thoriadau ar hyd y stryd yn rhoi cyfres o olygfeydd allan i'r cefn gwlad ehangach. Mae gerddi'r rhandir yn rhoi golygfa ddiddorol ac amrywiol o du cefn yr eiddo ac i'r tirlun ehangach y tu hwnt. Mae'r amffitheatr hefyd yn cynnig golygfa fwy agored ac mae bod yn uwch nag ymyl y stryd yn eich caniatáu chi i weld dros y stryd, y toeau a'r tirlun y tu hwnt. Yn ogystal, mae cyfres o olygfeydd byrrach a chipolygfeydd rhwng adeiladau sy'n annog darganfyddiad wrth i chi symud o un pen yr AG i'r pen arall.

Nodir isod golygfeydd strydoedd dan sylw, heb eithrio eraill:

Heol y Prior i Lôn yr Hen Dderwen

Abaty'r Ddôl i Lôn yr Hen Dderwen

Heol y Prior i Heol yr Hen Brior

Heol y Prior i Stryd Penuel Heol y

Prior i Eglwys San Pedr

Meindyrau a Thyrrau

Mae rhan helaeth o siâp y toeau yng Nghaerfyrddin yn nodweddiadol drwy'r meindyrau, tyrrau a thalcenni eglwysi a chapeli. Mae'r rhain yn cynnig tirnodau pwysig wedi'u pwysleisio gan yr uchderau is sy'n nodweddiadol yn yr AG. Gallai datblygiadau sy'n amharu ar y golygfeydd hyn gael effaith negyddol ar yr ardal. Mae hyn yn cynnwys golygfeydd o;

Eglwys San Pedr (y tu allan i'r AG hon)

Eglwys Sant Ioan

Ysgol yr Hen Briordy

Capel y Priordy

Tirlun a manau agored cyfagos

Oherwydd dwyster adeiladau Heol y Prior, yn nodweddiadol ceir cipolygfeydd o'r tirlun i'r de a'r gogledd lle mae ffyrdd neu fylchau yn yr adeiladau neu lle mae ffyrdd yn fforchio. Ym mhen dwyreiniol yr AG, oherwydd topograffi yr ardal, cewch olygfeydd helaeth o'r brynau cyfagos.



Heol y Prior i Y Rhodfa



Heol y Prior o Eglwys San Pedr



Heol y Prior yn edrych tua'r gorllewin at Eglwys Sant Ioan


Gellir gweld y gerddi cefn sydd y tu ôl i dai i'r dwyrain o Lôn yr Hen Dderwen ar Heol y Prior drwy goed sy'n ymestyn yn uwch na'r toeau. Mae'n nodwedd weledol sy'n dangos datblygiad hanesyddol y safle fel tir amaethyddol. Ceir golygfa arbennig, yn llawn cymeriad ar y gyffordd gyda Lôn yr Hen Dderwen lle mae bwlch yn yr adeiladau yn cynnig golygfeydd agored i'r gogledd.

Yn wahanol i rannau helaeth o'r AG, nid yn unig mae gerddi'r rhandir a'r amffitheatr yn cynnig lleoedd pwysig i orffwys a myfyrio y tu hwnt i rwydwaith y stryd drefol, ond mae hefyd yn cynnig lleoedd a all ddarparu golygfeydd panoramig o'r tirlun cyfagos i'r de. Mae topograffi'r tir sy'n esgyn i lawr i'r de yn cyfnerthu'r golygfeydd hyn, o'r gerddi ac wrth edrych i lawr y ffyrdd eilaidd o Heol y Prior, ac mae'r rhain yn agweddau cadarnhaol ar y AG.

Golygfeydd wedi'u rhwystro a chaeedig

Ochr yn ochr â'r olygfa linellol i lawr Heol y Prior, mae'r cipolygfeydd i lawr strydoedd bach, rhwng adeiladau ac ar hyd y strydoedd cefn hefyd yn rhan annatod a phwysig o gymeriad yr ardal ac mae sawl ardal lle ellir cyflawni'r rhain.

Mae'r rhain yn cynnig cyferbyniad diddorol i agweddau mwy ffurfiol ar y stryd, yn ogystal ag i atgoffa pobl o ddatblygiad hanesyddol yr ardal drwy'r priorddy, y dref Rufeinig a'r tiroedd bwrdaes cysylltiedig. Stryd Penueil yw'r unig ffordd eilaidd y mae ei golygfa wedi'i rhwystro gan adeilad yn hytrach na golygfa o'r tirlun y tu hwnt.



4.2 Prif Dirnodau ac Adeiladau Allweddol

Mae gan Heol y Prior 21 o adeiladau a strwythurau rhestredig yn y dref ac mae hynny'n dyst i ansawdd y bensaernïaeth a'r cysylltiadau a'r datblygiadau hanesyddol sy'n rhan hanfodol o'i chymeriad.

Adeiladau a Strwythurau Rhestredig

Amffitheatr Rufeinig

Heneb gofrestredig i ffin ddwyreiniol yr AG sydd ag arwyddocâd lleol, cenedlaethol, a rhyngwladol, oherwydd ei botensial i gryfhau ein gwybodaeth ynghylch trefniadaeth drefol y Rhufeiniaid. Gyda'i strwythur uwch ben y tir sydd wedi goroesi i raddau helaeth, mae hwn yn safle hanesyddol nodedig yn ogystal ag yn fan agored gwerthfawr ac unigryw yn y dref.



Cofeb Ryfel

Mae'r gofeb o flaen y cyn-glafdy a'r fainc garreg yn strwythurau rhestredig gradd II ac yn cynnig un o'r ardaloedd prin sy'n agored i'r cyhoedd yn yr AG yn ogystal ag yn dirnod unigryw i'r stryd. Wedi'i hadeiladu ym 1923-4 i goffáu am filwyr y Rhyfel Byd Cyntaf, mae'n cynnwys cerflun efydd ar bedestal gydag ysgrifen arni. Dyluniwyd y gofeb gan EV Collier ac fe'i crëwyd gan Syr William Goscombe John a oedd yn gerfluniwr blaenllaw yng Nghymru ar ddechrau'r 20fed Ganrif.



Eglwys Sant Ioan

Eglwys Anglicanaidd restredig gradd II a agorodd ym 1890 gan Esgob Tyddewi ac a gafodd ei adeiladu fel yr eglwys cyfrwng Cymraeg ar gyfer plwyf San Pedr i ddyluniadau gan Middleton, Prothero a Phillot o Cheltenham. Wedi'i hadeiladu mewn arddull Gothig perpendicwlar gyda charreg Llanelli, mae'r eglwys yn eglwys dref Fictoraidd wedi'i dylunio'n dda sy'n parhau i ychwanegu'n sylweddol at y strydlun, gan gynnwys ei mynwent, coed, a chlochdy.



Cyn-ysgol Heol y Prior

Cyn-ysgol Genedlaethol ac eglwys 1869 o'r enw Ysgol-Eglwys San Pedr, a gafodd ei disodli gan Sant Ioan adeiladwyd hi y drws nesaf. Caewyd yr ysgol ym 1988 a'i throsi'n swyddfeydd ar gyfer Lloyds Bank ym 1991 a ddaeth yn stiwdios ar gyfer BBC Wales yn ddiweddarach. Mae'r adeilad yn un rhestredig Gradd II ac ochr yn ochr â Sant Ioan, mae'n llenwi'r bwlch rhwng Y Rhodfa a Stryd Penuel.



Eglwys Fedyddwyr Penuel

Adeiladwyd y capel rhestredig Gradd II plastr garw a stwco wedi'i beintio gwreiddiol ym 1786 ond cafodd ei ail-adeiladu ym 1817 ac eto ym 1909 i ddyluniadau gan JH Morgan. Prynwyd y safle gan John Morgan Hynaf o waith tun Caerfyrddin ar gyfer y Bedyddwyr Cyffredinol, a sefydlwyd ym 1757 yr oedd ei gapel cyntaf yn lard yr Hen Gapel gyferbyn. Adeiladwyd yr ystafell ysgol i'r tu cefn ym 1886 ac mae'n cynnwys rwbwl o garreg gyda mowld siâp rhaff o terracotta coch rhwng 2 gwrs o frics du a ffenestr fwaog Romanésg i'r olwg cefn o ochr Stryd Penuel.



Capel Annibynwyr Y Priordy

Capel amlwg wedi'i leoli ar gornel a ddyluniwyd gan George Morgan, pensaer blaenllaw yng Nghymru o ran dylunio capeli. Wedi'i adeiladu ym 1875 fel capel annibynwyr, dyma'r gwaith sylweddol cyntaf gan Morgan yn ei arddull Romanésg, a ddatblygodd yn grefft nodweddiadol yn ei waith. Mae ei blot ar gornel, y toeau addurniadol a phrif dalcen y cylchigau, ffenestri gwydr wedi'u staenio â bwa, colofnau cyswllt a manylion carreg yn ychwanegiadau llawn cymeriad at y stryd.



Clafdy Sir Gâr

Clafdy pwrpasol a adeiladwyd ym 1857 gan William Wesley Jenkins o Lundain a gafodd ei drosglwyddo i'r GIG ym 1948 a'i gau yn yr 20fed Ganrif. Bellach yn adeilad rhestredig gradd II, cafodd yr ychwanegiadau i'r tu cefn a adeiladwyd rhwng 1899-1934 eu dymchwel yn 2002 ac erbyn hyn mae'r adeilad wedi'i drosi yn fflatiau. Wedi'i osod yn ôl o ymyl y ffordd gyda'r gofeb ryfel restredig y tu allan iddo, mae'r dyluniad Eidalaidd gyda'r stwco oren yn arbennig o drawiadol, ac mae'n fwy amlwg gan y plot manwerthu gwag sy'n gysylltiedig ag ef i'r dwyrain, yn rhoi golygfa lawn o'r ochr o Heol y Prior.



Oak House

Tŷ rhestredig Gradd II ar ddiwedd teras sydd wedi'i leoli ar gyffordd Lôn yr Hen Dderwen a safle Hen Dderwen Caerfyrddin a dynnwyd o'r tir ym 1978. Mae'r tŷ yn dyddio'n ôl rhwng canol a diwedd y 18fed Ganrif, wedi'i addasu ar ddiwedd y 19eg Ganrif neu ar ddechrau'r 20fed Ganrif a'i drosi'n fflatiau. Wedi'i restru'n dŷ sydd wedi goroesi ers y 18fed Ganrif, mae ei leoliad yn caniatáu golygfeydd hir o ddwyrain Heol y Prior, yn enwedig y toeau a'r simneiau sydd wedi goroesi.



Tafarn y Red Lion

Tafarn rhestredig gradd II yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif, mewn arddull Georgaidd sydd ar ffin mynediad i'r AG ac yn creu grŵp gyda Rhifau 1 a 144 Heol y Prior sy'n dathlu'r porth hwn.



1 Heol y Prior

Tŷ a siop restredig Gradd II ar ddiwedd teras, mwy na thebyg yn dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif gyda blaen siop yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 19eg Ganrif neu ddechrau'r 20fed Ganrif. O werth mewn grŵp gyda Rhifau 2 a 144 sy'n marcio mynediad i'r AG. Efallai fod tŷ arall wedi bod i'r gorllewin a gafodd ei ddymchwel pan ledaenwyd y ffordd cyn 1880. Mae'r ardd a oedd wedi'i lleoli ar y gornel hon, sydd o bosibl yn gysylltiedig â'r Ficerdy, wedi'i cholli i estyniad un llawr a all fod yn ail-ddefnyddio wal yr ardd o'r 19eg Ganrif. Byddai ail-ddylunio'r estyniad hwn neu gyflwyno'r mannau gwyrdd o fudd i'r gornel flaenllaw hon.



144 Heol y Prior

Tŷ rhestredig Gradd II ar ddiwedd teras ac yn dyddio'n ôl i ddiwedd y 18fed Ganrif neu ddechrau'r 19eg Ganrif. A hwythau'n arfer bod yn ddau dŷ yn y gorffennol gyda thramwyfa rhyngddynt, mae'r wedd flaen yn debygol o ddyddio'n ôl i ddiwedd y 19eg Ganrif. Yn yr un modd â Rhif 1, cafodd y tŷ i'r gorllewin ei ddymchwel pan ledaenwyd y ffordd. O ystyried ei fod yn uwch na'r adeiladau bob ochr iddo, yn ogystal â'r ffrâm drws bren, bondo addurniadol a llawr gwaelod rwstig, mae'r adeilad yn creu mynediad llawn cymeriad i'r AG.



31 Heol y Prior

Wedi'i leoli gyferbyn â Chapel Annibynwyr Y Priordy ar gornel Heol y Prior a Heol yr Hen Brior, mae cyn-dafarn y Three Cranes yn dyddio'n ôl rhwng dechrau a chanol y 19eg Ganrif ac yn adeilad rhestredig Gradd II. Yn dŷ erbyn hyn a arferai fod yn siop, mae'r talcen sy'n wynebu Stryd y Prior yn dal i gynnwys ffenestr siop syml o'r 19eg Ganrif. Wedi'i adeiladu fel adeilad ar gornel, dyma un o'r talcenni prin sydd â ffenestri yn wynebu'r stryd. Oherwydd llethr deheuol Heol yr Hen Brior, mae ei uchder yn uwch sy'n ei wneud yn rhan amlwg o'r golygfeydd i'r dwyrain ar hyd Heol y Prior.



Adeiladau Anrhestredig Nodedig

Nid yw'r adeiladau canlynol yn rhai wedi'u rhestru'n statudol, ond maent yn atgyfnerthu cymeriad yr ardal, yn darparu tirnod pwysig neu'n rhan o dreftadaeth Caerfyrddin oherwydd arwyddocâd pensaernïol, hanesyddol, neu archaeolegol, ac yn cael eu cydnabod yn asedau treftadaeth na ellir eu disodli. Fel y cyfryw, rydym yn cynnig eu cynnwys ar restr o adeiladau lleol teilwng; ni fyddai hyn yn rhoi gwarchodaeth statudol i adeilad ac ni fyddai angen caniatâd adeilad rhestredig i adeilad sydd wedi'i restru'n lleol, ond byddai diddordeb arbennig yr adeilad yn ystyriaeth sylweddol yn y broses gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Capel Bethania

Yn gapel Methodistaidd Calфинаidd gynt a bellach yn anheddiad wedi'i adeiladu ym 1902 yn arddull Celf a Chrefft gan bractis pensaernïol George Morgan a'i Fab Caerfyrddin. Mae'r capel yn rhwystro'r olygfa o Rodfa'r Gogledd ac yn ychwanegiad cadarnhaol at yr olygfa o'r Clafdy a'r gofeb ryfel gyferbyn.



Adeiladau y tu cefn i hen Ysgol Heol y Prior

Adeilad un llawr siâp L ar dir yr hen ysgol, a oedd mwy na thebyg yn cynnwys estyniad i'r cefn lle'r oedd ystafelloedd ysgol ar gyfer genethod i'r dwyrain a babanod i'r gorllewin. Yn rhan o grŵp gydag adeilad yr ysgol, yn gyfoes ac yn defnyddio dyluniad a deunyddiau tebyg.



16 Heol y Prior

Mae gan yr adeilad hwn ar gornel, y mae ei ddyddiad yn anhysbys ond yn debygol o ddyddio'n ôl i ganol yr 20fed Ganrif, do unigryw a ffenestri crwn bwaog, sy'n ychwanegiad annodweddiadol ond deniadol at y stryd. Mae agoriad wedi'i gau ar y talcen gorllewinol wedi cael gwared ar beth o gymesuredd y ffasâd hwn. Ar floc cornel amlwg sy'n weladwy wrth symud tua'r dwyrain ar hyd Heol y Prior ac yn ychwanegiad at yr olygfa o Eglwys Sant Ioan.



60 Heol y Prior

Yn rhan o dai teras yn dyddio'n ôl rhwng canol a diwedd y 19eg Ganrif, sydd gyferbyn â'r amffitheatr. Mae'n nodedig am ei fanylion sydd wedi goroesi, gan gynnwys ei gonglfeini, ffenestri codi, manylion cerfwedd stwco i'r agoriadau a maen clo a ffrâm drws addurniadol, er ei fod wedi colli ei simnai a'r gwaith pren allanol. Gan ychwanegu at osodiad yr heneb restredig, mae'r tai yn parhau yn enghreifftiau da a allai ysbrydoli adfywiad yr adeiladau cyfagos.



Blaen siopau nodedig

Gall blaen siopau wneud cyfraniad pwysig at yr AG a chynrychioli cyfnod pwysig o ddatblygiad yng nghanol-diwedd y 19eg Ganrif pan gafodd y rhan hon o Gaerfyrddin ddatblygiad sylweddol. Gan mai prin yw'r enghreifftiau o ddeunydd hanesyddol sydd wedi goroesi, mae'r enghreifftiau sy'n parhau o arwyddocâd sylweddol, a dylid eu gwarchod. Gellir rhagdybio bod rhagor o ddeunyddiau hanesyddol wedi'u cuddio gan ffasgiâu neu ddeunyddiau cyfoes. Yn ogystal, dylid ystyried bod ardaloedd sydd â rhannau o ddeunydd yn rhai gwerthfawr a dylid annog ail-gyflwyno elfennau coll. Mae'r blaen siopau canlynol wedi'u nodi gan fod eu tu blaen wedi goroesi ers y 19eg Ganrif ac fel y cyfryw maent yn ychwanegiad llawn cymeriad at y strydlyn.



56-57 Heol y Prior



100 Heol y Prior

1 Heol y Prior

56-57 Heol y Prior (anrhestredig)

100 Heol y Prior (anrhestredig)

133 Heol y Prior (anrhestredig)

136 Heol y Prior (anrhestredig)

137 Heol y Prior (anrhestredig ac yn anheddiad erbyn hyn yn ôl pob tebyg)

143 Heol y Prior (anrhestredig)



137 Heol y Prior

4.3 Mannau Gwyrdd a Naturiol Pwysig

Mae'r AG yn elwa o nifer o goed aeddfed, mannau gwyrdd, a chynefinoedd naturiol, sy'n cyfrannu at yr ardal ac yn seibiant rhag dwyster yr adeiladau ar y stryd. Mae nifer o fannau gwyrdd yn yr AG sy'n ychwanegu'n fawr at ei hcymeriad ac yn darparu seibiannau pwysig yn nwyster uchel yr adeiladau ar y strydoedd a lleoedd i ymlacio, myfyrio a gwwerthfawrogi'r amgylchfyd. Maent hefyd yn cynnig buddion o ran llesiant i'r rheini sy'n eu defnyddio nhw ac fel y cyfryw yn cyflwyno buddion diwylliannol a chymunedol hefyd. Mae'r prif nodweddion a'r mannau yn cynnwys;

- Gerddi'r rhandir
- Amffitheatr Rufeinig
- Coed a gerddi y tu ôl i Heol y Prior i ddwyrain Lôn yr Hen Dderwen
- Tir Eglwys Sant Ioan
- Cyffordd werdd yn Lôn yr Hen Dderwen
- Gerddi cefn

Gweler mannau gwyrdd a nodweddion lleol ar y map canlynol.




Gerddi'r rhandir



Cyffordd Lôn yr Hen Dderwen



Tir Eglwys Sant Ioan



5.0 Cymeriad ac Ymddangosiad

Mae'r adran hon yn disgrifio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal fel yr oedd ar adeg yr astudiaeth.

5.0 Nodweddion y Dref

Yn bennaf, mae'r AG yn dilyn ffordd syth hanesyddol ac wedi'i lleoli o fewn hen waliau'r dref Rufeinig a thref ganoloesol Hen Gaerfyrddin gydag adeiladau wedi'u hadeiladu ar ymyl y stryd neu'n ôl oddi wrth ymyl y stryd. Mae sawl ffordd eilaidd yn croestorri hyn i'r de a'r gogledd gyda thopograffi yr ardal yn cynnig sawl golygfa allan tuag at y tirlun a thu hwnt. Yn ogystal, mae cyfres o fylchau yn yr adeiladau i'r stryd sy'n cynnig cipolygfeydd a golygfeydd ehangach i'r tu allan. Mae'r amrywiaeth hwn yn creu teimlad o le caeedig ac agoredrwydd sy'n neidio o'r naill i'r llall wrth i chi symud drwy'r ardal ac yn cael profiad ohoni. Wedi dweud hynny, gall hyn fod o fudd i'r ardal a gwneud drwg iddi yn yr un modd. Er enghraifft, gall cipolygfeydd rhwng adeiladau daflu goleuni ar yr agweddau mwy anffurfiol y tu ôl i ymyl y stryd, ond lle mae adeiladau wedi'u dymchwel, gallant greu bylchau mawr sy'n amharu ar yr olygfa drwodd a chreu golygfeydd anfwriadol megis golygfeydd o dalcenni gwag a thalcenni eilaidd. Yn aml, gellir anghofio am strydoedd bach ac o'r herwydd hynny gallant fod yn destun cynnal a chadw gwael ac addasiadau amhriodol, ond ni ddylid tanbrizio eu heffaith ar olygfeydd drwy'r AG.

Mae meindwr Sant Ioan yn rhoi tirnod gweledol ymhlith y toeau drwy ran helaeth o hanner gorllewinol yr AG, yn caniatáu synnwyr o gyfeiriad i bobl, gyda thoeau ar ongl, simneiau a gwahanol uchderau lloriau yn ychwanegu at yr amrywiaeth. Mae Sant Ioan, Capel Bethania, Capel Annibynwyr y Priordy, ac Eglwys Fedyddwyr Penuel

yn cynnig toriadau wedi'u dylunio yn y ffordd a chyfres o dirnodau i annog symudiad a darganfyddiad drwy'r ardal. Lle bynnag mae datblygiadau cyfoes uwch, mae dormerau wedi'u cyflwyno neu simneiau wedi'u tynnu, ac fel arfer mae'r rhain yn tynnu oddi ar yr olygfa o'r toeau. Oherwydd yr amrywiaeth hwn, gellir ymgorffori addasiadau sydd wedi'u dylunio'n dda o'r golygfeydd ond mae gofyn eu rheoli ac ystyried eu heffaith yn llawn. Mae pen dwyreiniol yr AG yn ogystal â'r Rhodfa yn fwy cyson ac fel y cyfryw, mae newidiadau sy'n amharu hyn yn haws eu gweld ac o bosibl yn tynnu oddi ar yr olygfa. Stryd Penuel yw'r unig ffordd eilaidd y mae ei golygfa wedi'i rhwystro gan adeilad yn hytrach na golygfa o'r tirlun y tu hwnt.



Y Rhodfa tua'r gogledd



Heol y Prior tua'r dwyrain yng nghyffordd Stryd Penuel

Mae sawl datblygiad cyfoes wedi bod yn yr ardal ar Heol y Prior ac ar strydoedd eilaidd, ac yn aml mae'r rhain wedi cael effaith negyddol oherwydd eu dyluniad pensaernïol, eu deunyddiau a'u ffenestri lletach. Mae hyn wedi arwain at arwyddocâd yr ardal mewn perygl o gael ei esgeuluso gan y bobl sy'n anghyfarwydd â'i datblygiad hanesyddol. Gall mwy o ddehongli, datblygiadau cyfoes o ansawdd a rheolyddion llymach ar ddymchwel helpu i wella peth o'r ddealltwriaeth hon.

Mae traffig yn rheoli llawer o'r AG, a dichon fod hyn yn ddisgwyliedig oherwydd ei strwythur sy'n dilyn prif dramwyfa. Mae dyfodiad parcio oddi ar y ffordd a lloriau caled a garejys ar strydoedd eilaidd wedi dechrau effeithio ar y symudiad yn ogystal â'r golygfeydd.

Preswylwyr sy'n defnyddio'r ardal yn bennaf, ochr yn ochr â pheth defnydd crefyddol a masnachol yn yr hanner gorllewinol. Mae hyn yn gwanhau craidd masnachol y dref sydd i'r gorllewin yn yr AG yn ogystal â chynnig seibiant naturiol yn y gyffordd gyda Lôn yr Hen Dderwen, gyda'r dwyrain i'r fan hon yn fwy preswyl.

Mae'r rhandiroedd a'r amffitheatr yn lleoedd unigryw yn yr AG yn y dref ehangach, y ddau ag arwyddocâd hanesyddol ac esthetaidd ond rhwydd fyddai esgeuluso'r arwyddocâd hwnnw. Mae angen gwarchodaeth a rheolaeth barhaus ar y safleoedd hyn er mwyn sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio arnynt ac er mwyn eu cadw'n lleoedd cyhoeddus gwerthfawr.

Mae mynediad gorllewinol yr AG yn nodedig am ei adeiladau sy'n dyddio'n ôl i ddechrau'r 19eg Ganrif, y mae cryn dipyn o'u deunydd hanesyddol yn parhau i fod yn gyflawn. Wedi dweud hynny, mae'r estyniad a'r llawr caled sydd wedi'i ymgorffori yn wal yr ardd hanesyddol wedi gwanhau'r ymyl deheuol gan wneud difrod i'r mynediad hwn. I'r gwrthwyneb, mae mynediad y dwyrain yn fwy tawel, gyda'r amffitheatr i'r ymyl gogleddol a thai teras i'r de. O'r herwydd hynny, nid yw ffin yr AG yn amlwg. Oherwydd topograffi'r ardal, mae adeiladau yng nghyffyrdd ffyrdd eilaidd i'r de yn dueddol o fod yn amlwg ac yn cynnig cyfres o dirnodau sy'n marcio'r cyffyrdd hyn. Mae cyffordd Lôn yr Hen Dderwen yn arbennig o amlwg oherwydd ei golygfeydd tuag allan, ei rheiliau hanesyddol, ei choed ar y strydoedd a'i hymylon gwyrdd sy'n helpu i ddathlu'r gornel hon.



Cyffordd Lôn yr Hen Dderwen yn edrych tua'r gorllewin



Porth dwyreiniol yr ardal gadwraeth

5.1 Deunyddiau adeiladu

Mae'r delweddau a'r rhestr ganlynol yn nodi enghreifftiau o'r deunyddiau a ddefnyddir yn yr AG sy'n naill ai'n cyfnerthu neu'n gwarchod nodweddion yr ardal.

Adeiladau unigryw, mwy, yn nodweddiadol o natur grefyddol

Carreg wedi'i naddu â morthwyl
Stwco (plaen a charreg nadd patrymog)
Manylion carreg nadd
Brics du Manylion
Terracotta



Deunyddiau cyffredin a welir ar draws yr AG

Rendrad, stwco a phlastr garw wedi'i beintio
Carreg rwbl ar hap wedi'i pheintio
To llechi
Gwaith plwm
Gwaith pren wedi'i beintio
Nwyddau dŵr glaw haearn bwrw



Deunyddiau ffiniau

Carreg rwbel, patrymog a heb batrwm
Gwaith haearn bwrw/gyr
Brics coch gyda rheiliau metel i'r Rhodfa



5.2 Uchderau adeiladau a chysylltiadau â phlotiau

Yn nodweddiadol, mae'r adeiladau yn cynnwys 2-3 llawr ac mae uchderau'r lloriau yn amrywio, gan roi agwedd ddiddorol i'r toeau a golygfeydd o dalcenni adeiladau lle mae'r adeiladau yn uwch na'r rhai cyfagos. Lle mae adeiladau wedi'u lleoli ar blotiau cornel i'r de o'r ffordd, mae llethr y ffordd yn cynyddu uchder gweledol yr adeiladau hyn, gan eu gwneud yn fwy amlwg yn y golygfeydd o'r stryd. Yn eithriad i hyn mae'r capeli a'r eglwysi sydd wedi'u lleoli ar eu tir eu hunain. Fel arfer wedi'u gosod oddi wrth ymyl y stryd, mae eu heffaith ar olygfeydd y stryd yn llai, ond yn aml mae eu toeau yn amlwg oherwydd bod adeiladau cyfagos yn is.

Mae'r strydoedd cefn yn cynnig mwy o amrywiaeth gyda golygfeydd tuag at dalcenni cefn, estyniadau un llawr a thai allan yng nghanol terasau 2 lawr. Mae'r Rhodfa, a gafodd ei datblygu dros gyfnod gweddol fyr o amser yng nghanol y 20fed Ganrif yn cynnig mwy o gysondeb gyda gerddi blaen a ffenestri bae gan greu strydlun diddorol ac amrywiol sy'n cynnal llinell galed i'r palmant.

Drwy gydol yr AG, mae adeiladau wedi'u lleoli ar ymyl y stryd gyda thoriadau yn y capeli a'r eglwysi, er bod waliau a rheiliau ffiniau yn gyson â llinell y stryd. Yn y gyffordd gyda Lôn yr Hen Dderwen, mae cyfres o erddi blaen gyda waliau ffin isel yn cefnogi rheiliau uwch eu pen.

Lle mae adeiladau wedi'u gwaredu o'r stryd, mae hyn yn creu toriadau amlwg yn y llinell adeiladau ac yn creu golygfeydd anfwriadol. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar Heol y Prior lle, er enghraifft, mae'r plot manwerthu gwag i orllewin y cyn-glafdy wedi creu golygfeydd amlwg o dalcen ochr y Clafdy a'r datblygiad cyfoes i'r de. Oherwydd oedran a dyluniad mwy amrywiol yr adeiladau ar y strydoedd eilaidd, nid yw bylchau i ymyl y stryd yn negyddol ond mae angen i unrhyw ddatblygiad ychwanegol neu ymgais i gael gwared ar adeiladau gael eu hystyried yn ofalus mewn perthynas ag adeiladau cyfagos a golygfeydd y gellir amharu arnynt.

Mae'r tiroedd bwrdaes a arferai ddiffinio'r ardal wedi'u colli bellach, er bod y plotiau adeiladau mwy cul gyda lled 2 fae yn cadw peth o'r nodweddion hanesyddol. Llai llwyddiannus yw'r adeiladau sy'n mynd y tu hwnt i'r gyfran hon heb dorri i lawr mäs yr adeilad ar ochr y stryd.



Cyffordd Lôn yr Hen Dderwen yn edrych tua'r dwyrain



Heol y Prior i'r pen gorllewinol

5.3 Manylion nodweddiadol neu arwyddocaol

Adeiladau unigryw, yn nodweddiadol o'r rheini sydd â natur grefyddol

Giatiau a rheiliau haearn addurniadol (wedi'u cynhyrchu'n lleol yn aml)

Conglfeini ar ddangos

Ffenestri bwaog Manylion

wedi'u cerffio ar gerrig

Triniaethau i addurno cribau to

Tyrrau a meindyrau

Manylion cyffredin a welir ar draws yr AG

Toeau ar ongl

Simneiau

Arwynebau wedi'u rendro a'u peintio'n lliwgar

Canopiâu drysau

Drysau pren panelog

Amgylchynau ffenestri ar ddangos

Ffenestri bwaog gyda chanopiâu llechi neu blwm

Ffenestri codi pren, fel arfer 1 dros 1, 6 dros 1 a 6 dros 6

Cornis cerrig neu stwco neu fand llinyn

Manylion godre

Blaen siopau pren

Walïau ffin o gerrig rwbel, yn aml gyda chap â phigfain

Rheilïau metel wedi'u peintio



5.4 Tir cyhoeddus; arwynebau, dodrefn stryd ac arwyddion

Mae'r ffyrdd wedi'u tarmacio gyda llinellau melyn dwbl ar hyd rhannau helaeth o ymyl y stryd, yn gwneud lle ar gyfer parcio ar y stryd mewn lleoliadau gwahanol ar hyd Heol y Prior. Lle mae ceir yn parcio ar ymyl y stryd, mae hyn yn rhwystro golygfeydd o'r stryd a gall amharu ar symudiad. Mae'r palmentydd yn gymysgedd o darnac i'r ochr orllewinol a slabiau palmant congrid i'r dwyrain. Mae'r holl strydoedd ochr wedi'u tarmacio ac mewn gwahanol gyflyrau, gyda mân waith atgyweirio yn cael gwared gymeriad yr ardaloedd hyn. Mae parcio ar y stryd i'w weld ar hyd y strydoedd deheuol, sy'n amharu ar olygfeydd ac yn culhau'r palmentydd nes eu bod yn rhwystro symudiad drwyddynt.

Prin yw'r dodrefn ar dir cyhoeddus. Mae un fainc ger yr amffitheatr a mainc o garreg yn yr ardal agored, gyhoeddus ger y Gofeb Ryfel. Fel mae pethau ar hyn o bryd, prin yw'r lleoedd i bobl ildio a myfyrio ar eu hamgylchoedd a dysgu mwy am yr AG. Gallai'r ardal o gwmpas y gofeb gynnig cyfle i wneud hyn, ond oherwydd cyflwr gwael yr adeiladau cyferbyn a chan fod coed y stryd wedi'u torri i lawr pan ddatblygwyd y Clafdy, nid yw pobl yn cael eu hannog i ildio ar hyn o bryd. Mae dau fwrdd dehongli; un yn Lôn yr Hen Dderwen ac un yn yr amffitheatr, ond rhwydd yw esgeuluso'r rhain gan eu bod wedi'u lleoli ar gyffyrdd prysur. Fel y cyfryw, mae'r AG wedi'i nodweddu'n bennaf gan symudiad parhaus drwodd.

Mae dodrefn y stryd fel y byddai'n ddisgwyliedig ar hyd prif dramwyfa, wedi'i nodweddu gydag arwyddion traffig amrywiol a dwy groesfan. Nid yw nifer a lleoliad

y rhain yn tynnu oddi ar y dref ar hyn o bryd, ond mae angen ystyried yn ofalus unrhyw arwyddion ychwanegol er mwyn sicrhau nad ydynt yn rhwystro adeiladau neu olygfeydd allweddol. Mae un arwydd sy'n cael effaith negyddol. Mae wedi'i lleoli yn Ysgol yr Hen Briordy ac yn y bôn mae'n rhwystro'r goeden stryd y tu ôl ac yn amharu ar y berthynas rhwng hon a Sant Ioan, gan rwystro eich gallu i weld yr adeiladau hyn gyda'i gilydd.


Mae'r amffitheatr a gerddi'r rhandir yn ddwy ardal sy'n cynnig seibiant oddi wrth y brif dramwyfa ond ceir profiadau tra gwahanol yn y ddau le. Er bod y rhandiroedd yn breifat, maent yn cynnig golygfeydd agored i'r tirlun ehangach ac ar draws yr AG, ac yn rhoi syniad i chi o strwythur hanesyddol yr ardal wedi datblygu o'r tiroedd bwrdaes a'r amaethyddiaeth o gwmpas y Priordy. I'r gwrthwyneb, mae'r amffitheatr yn llai amlwg i'r cyhoedd, wedi'i lleoli mewn lle eithaf caeedig, yn uwch na'r ffordd ac mewn lle gwag, yn rhwystro golygfeydd i bob pwrpas ond hefyd yn cynnig ardal i'r enaid gael llonydd y tu hwnt i ganol trefol yr AG. Gellid gwella'r ardal hon i wella dealltwriaeth ymwelwyr am arwyddocâd y lle.



Cofeb ryfel



Yr amffitheatr



- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Blaen siopau hanesyddol
- ★ Nodwedd o'r treflun
- Celfi stryd

5.5 Deunyddiau ffiniau a thriniaethau

Yn nodweddiadol, mae waliau ffiniau hanesyddol sydd wedi goroesi wedi'u gwneud o gerrig rwbel, gyda pheth deunydd o'r Canoloesoedd wedi goroesi yng ngerddi'r rhandiroedd a'r parc cyfagos. Mae gan nifer o'r rhain gapan â phigfain sy'n fanylyn unigryw i'r AG hon. Yn ogystal, mae cyfres o reiliau a giatiau metel addurniadol, yn ogystal â waliau cerrig rwbel i'r eglwysi a'r capeli ac yn y gyffordd ac ar flaen adeiladau preswyl i ddwyrain Lôn yr Hen Dderwen. Mae sawl enghraifft o driniaethau cyfoes i ffiniau, gan gynnwys ffensys diogelwch metel uchel i'r plot manwerthu gwag ger y Clafdy, rheiliau rhwydog agored i'r palmentydd yn y pen dwyreiniol, waliau brics coch a pholion pren. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rhain a'u cyfatebwyr hanesyddol yn amlwg oherwydd eu deunydd a'u manylion, ac maent yn tynnu oddi ar yr ardal. Mae'r ffensys pren yn y rhandiroedd yn gyfoes ond maent yn fwy addas yn eu lle oherwydd eu bod wedi'u gosod oddi wrth y brif dramwyfa ac yn gysylltiedig â'r rhandiroedd.

Mae'n bosibl bod rhan o wal ffin i'r gyffordd orllewinol ar yr ymyl deheuol wedi'i hymgorffori o wal yr ardd flaenorol i'r Ficerdy. Erbyn hyn, mae to wedi'i osod drosti i ffurfio estyniad i'r adeilad cyfagos sy'n gwanhau'r mynediad hwn i'r AG heibio Eglwys Sant Pedr a fyddai fel arall yn llawn cymeriad. Y Rhodfa sydd fwyaf cyson o ran triniaethau i ffiniau yn yr AG, gyda waliau brics coch isel a rheiliau uwch eu pen a gerddi blaen y tu ôl iddynt.

Mae'r rhain mewn cyflwr amrywiol ac wedi'u peintio mewn lliwiau gwahanol sydd wedi cael gward ar beth o'r unfurfaeth. Mewn cymhariaeth, mae Stryd Penuel a Heol y Prior yn fwy amrywiol, gyda chyfres o lorïau caled,

Garejys ynghyd â waliau cerrig, blociau, brics ac wedi'u rendro, y cwbl ar wahanol uchderau yn cau golygfeydd mewn rhai mannau a'u hagog i'r tirlun a thu cefn yr eiddo ym mannau eraill. Gall hyn greu strydlyn yn llawn cymeriad, ond lle bynnag mae deunyddiau neu fanylion cyfoes wedi'u defnyddio neu mewn cyflwr gwael, maent yn tynnu oddi ar olygfeydd y stryd.


Enghreifftiau prin yw'r ffiniau gwyrdd i Heol y Prior, gyda'r goeden dderw newydd ar gornel Lôn yr Hen Dderw, y tirlun a'r coed i Eglwys Sant Ioan ac Ysgol yr Hen Briordy a nifer brin o erddi blaen yn eithriadau. Wedi dweud hynny, mae sawl golygfa tuag allan yn creu cysylltiad parhaus â'r tirlun ehangach y tu hwnt. Mae'r amffitheatr wedi'i lleoli yn uniongyrchol ar ymyl y ffordd wrth wraidd polion pren nad ydynt yn ei darparu â'r statws y byddai rhywun yn ei ddisgwyl o safle o arwyddocâd hanesyddol. Mae gerddi blaen i strydoedd eilaidd yn ychwanegu mwy o wyrddni at y strydoedd hyn, er bod y rhain i gyd wedi'u gosod y tu ôl i waliau neu reiliau ffiniau.



Gerddi blaen cartrefi ar Heol y Hen Dderwen



Wal ffin tu blaen i gapel annibynwyr Y Priordy



Wal ffin i erddi'r rhandiroedd

6.0 Dadansoddiad


6.1 Adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth

Yn ogystal â'r adeiladau nodedig sydd wedi'u nodi yn adran 4.1, am sawl rheswm gwahanol mae llawer mwy o adeiladau mawr yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ansawdd yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys eu cyfraniad at y treflun, ansawdd, a nodweddion addurniadol, neu gysylltiadau hanesyddol neu ddiwylliannol.

Er bod nifer o adeiladau yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal gadwraeth, mewn sawl achos mae ansawdd eu pensaernïaeth wedi'i gyfaddawdu gan addasiadau gwael. Mewn perthynas ag eiddo domestig, mae hyn yn debygol o ddigwydd drwy golli nodweddion hanesyddol megis ffenestri codi pren. Er gwaethaf hyn, mae'r adeiladau hyn yn dal i ddangos priodweddau cryf a chyfraniadau cadarnhaol y gellir eu gwella'n fawr drwy atgyweirio'r addasiadau sy'n tynnu oddi ar yr adeiladau. Byddai ceisiadau i ddad-wneud addasiadau ansensitif fel cais annibynnol neu fel rhan o ailddatblygiad yn cael eu cefnogi.

6.2 Adeiladau sy'n tynnu oddi ar yr Ardal Gadwraeth

Adnabyddir adeiladau negyddol fel y rheini sydd, oherwydd eu graddfa, dyluniad manwl, neu ddeunyddiau, yn anghydweddol mewn perthynas â phrif nodwedd yr ardal gadwraeth. Gellir ystyried y rhain fel ymgeiswyr ar gyfer ailddatblygu cyfanwerthu, er yn rhai achosion, gall fod yn addas cadw cragen yr adeiladau hyn, gan osgoi'r carbon corfforedig sy'n gysylltiedig ag ailddatblygu ar raddfa fawr.



7.0 Arwyddocâd

Un o'r egwyddorion arweiniol i reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yw dealltwriaeth am arwyddocâd yr ased hwnnw, boed yn adeilad, lle, neu rywun sy'n fwy anniriaethol. Mae arfer dda yn awgrymu asesu arwyddocâd mewn cymhariaeth â chfres o werthoedd sydd wedi'u nodi yn:

Gwerth Tystiolaethol; Yr olion a'r deunydd ffisegol sy'n goroesi ac yn dal i fodoli yn yr ardal

Gwerth Hanesyddol; Sut all yr ardal roi dealltwriaeth i ni am bobl, digwyddiadau neu agweddau ar fywyd yn y gorffennol

Gwerth Esthetig; A yw'n brofiad braf crwydro'r ardal a chael profiad ohoni

Gwerth Cymunedol; Y gwerth mae'n ei roi i'r bobl sy'n byw yn yr ardal, yn gweithio ynddi ac yn ymweld â hi

Efallai fod pob un o'r gwerthoedd hyn yn bodoli ar lefelau amrywiol, o isel i uchel, ac mae'n bwysig deall hynny. Yn ogystal, mae'n bwysig cydnabod yr eitemau hynny y mae eu perthnasedd y tu hwnt i'r categorïau hyn neu'n berthnasol i sawl categori ar lefelau gwahanol. Gall hyn godi yn arbennig wrth ystyried y nodweddion hynny sy'n creu ymdeimlad o le.

Mae'r crynodeb canlynol yn nodi'r eitemau o arwyddocâd allweddol ar gyfer yr Ardal Gadwraeth. Dilyniir hwn gan archwiliad manylach o bob eitem ac yn y casgliad nodir sut mae pob un yn gysylltiedig â gwerthoedd tystiolaethol, hanesyddol, esthetig, a chymunedol ac ar ba lefel.

- Patrwm stryd hanesyddol sydd wedi goroesi i raddau helaeth o wreiddiau Rhufeinig y dref drwy'r twf a welwyd yn y 18-19eg Ganrif
- Lleoliad hanesyddol Maridunum a Hen Gaerfyrddin
- Yn cynnwys henebion cofrestredig yr amffitheatr Rufeinig a'r hen Briordy
- Potensial archaeolegol uchel
- Sawl cysylltiad â digwyddiadau a phobl nodedig gan gynnwys yr Hen Dderwen
- Safle'r Cyn-glafdy
- Cyfres o olygfeydd arwyddocaol i'r ardal, ohoni a thrwy'r ardal oherwydd ei thopograffi
- Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol
- Cofeb ryfel a'r tir cyhoeddus cysylltiedig
- Teimlad cryf o dir caeedig gyda rhannau o wyrddni, cipolygfeydd a golygfeydd ehangach
- Ffiniau hanesyddol sydd wedi goroesi, gan gynnwys gwaith metel a rwbwl cerrig
- Yn dangos twf y dref yn y 18fed i ddechrau'r 20fed Ganrif
- Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig wedi'u gosod yn ôl o ymyl y stryd

Patrwm stryd hanesyddol

Mae Heol y Prior i raddau helaeth yn dilyn ffiniau dwyreiniol a gorllewinol tref Rufeinig Maridunum a'r dref ganoloesol a ddaeth wedyn. Mae'r ffordd yn parhau i fod y brif ffordd drwy'r AG ac i raddau helaeth yn dal i fod yn sail i ddatblygiad a'r ffordd mae pobl yn symud drwy'r ardal ac yn ei phrofi.

Maridunum a Hen Gaerfyrddin

Yr ardal hon o Gaerfyrddin yw'r lle y gellir olrhain sefydlu'r dref bresennol, sy'n cadw'r deunydd sydd wedi goroesi yn ogystal â chysylltiadau llai anniriaethol i'r gorffennol drwy ei phatrwm stryd sy'n dal i fodoli a digwyddiadau hanesyddol. Fel y cyfryw, mae ganddi arwyddocâd hanesyddol mawr i'r dref a'r hyn y gall ei dysgu i ni ynghylch ei datblygiad a'i tharddiad.

Henebion Cofrestredig

Mae henebion cofrestredig yr amffitheatr a'r Priordy yn safleoedd o werth hanesyddol arwyddocaol cydnabyddedig oherwydd yr hyn y gallant eu haddysgu i ni ynghylch datblygiad Caerfyrddin yn ogystal ag yn enghreifftiau o ddatblygiadau hanesyddol a all lywio ein gwybodaeth ehangach ynghylch y cyfnodau hyn mewn hanes. Yr amffitheatr yw un o saith amffitheatr sydd wedi goroesi ym Mhrydain a dim ond dwy yng Nghymru Rufeinig. Mae sawl ôl deunydd uwch ben y tir yn parhau i fod yno. Erbyn hyn, mae'r Priordy wedi'i golli'n llwyr bron iawn i ail-ddatblygu, ond mae darnau o'r waliau canoloesol yn parhau mewn waliau ffiniau cyfagos, ac mae'r lleoliad a'r mynediad bwaog i'r porthdy yn dal i fod yn gydnabod.

Potensial archaeolegol

Oherwydd ei gwreiddiau Rhufeinig a chanoloesol, mae gan yr ardal botensial uchel am ddarganfyddiadau archaeolegol hyd heddiw yn ogystal â'r wybodaeth y gall pobl ei dysgu drwy ddatblygiad y dref a dealltwriaeth hanesyddol ehangach. Rhwydd yw esgeuluso hyn, gan mai o dan y ddaear mae'r potensial hwn ar y cyfan, ond mae angen rheoli datblygiadau yn ofalus i osgoi unrhyw ddifrod potensial i'r darganfyddiadau pwysig hyn.

Digwyddiadau a phobl nodedig

Mae'r AG wedi gweld sawl digwyddiad hanesyddol nodedig, wedi bod yn gartref i sawl preswlydd nodedig ac yn cynnal cysylltiad ffisegol â nifer o'r rhain drwy strwythurau adeiledig. Er enghraifft: Llyfr Du Caerfyrddin, a gafodd ei ysgrifennu yn y Priordy, sef yn ôl y gred y llawysgrif gynharaf wedi'i hysgrifennu'n llwyr yn y Gymraeg i oroesi; yr ysgol ramadeg rydd a sefydlwyd gan Elizabeth I ac a gafodd nifer o weinidogion nodedig, gan gynnwys John Jones, trefnwr y Geiriadur Groeg a Saesneg cyntaf, a Dr Abraham Rees, awdur y Gwyddoniadur; safle nifer o'r safleoedd diwydiannol a helpodd i siapiau twf y dref yn y 18fed Ganrif, gan gynnwys y ffatri tunplat; safle'r Hen Dderwen a gafodd ei phlannu yn ôl y sôn gan ddisgynydd i Adams, Arlywydd America; y Parch MJ Rhys o gapel Annibynwyr Penuel, a oedd o bosibl yr unigolyn cyntaf o Ewrop i groesi'r cyfandir i America; Syr William Goscombe John a oedd yn gerfluniwr blaenllaw o Gymru ar ddechrau'r 20fed Ganrif a greodd cofeb y Rhyfel Byd Cyntaf; cafodd Capel Annibynwyr Y Priordy ei ddylunio gan George Morgan, pensaer o Gymru yn enwog am ddylunio capeli. Dyma'r tro cyntaf iddo ddefnyddio arddull Romanésq, a ddatblygodd yn grefft nodweddiadol yn ei waith.

Cyn-glafdy

Er ei fod bellach wedi'i drosi'n fflatiau, mae'n bosibl hyd heddiw adnabod prif strwythur Cyn-glafdy Sir Gaerfyrddin. Gwasanaethodd y dref am bron i 150 o flynyddoedd fel y prif ysbyty, ac fel y cyfryw roedd yn strwythur allweddol ac adnabyddadwy yn y dref. Mae'n debyg bod trosi'r adeilad wedi cael gwared ar nifer fawr o'r deunydd gwreiddiol ond mae'n dal i gynnal ei gysylltiad â rhan bwysig o hanes y dref ac yn un a wasanaethodd y gymuned leol.

Golygfeydd arwyddocaol

Yn sgil topograffi'r ardal, ceir cyfres o olygfeydd pwysig i'r AG, ohoni a thrwyddi, gan gynnwys golygfeydd hir o'r strydoedd yn erbyn golygfeydd caeedig byrrach a golygfeydd ehangach tuag at y tirlun a thu hwnt. Mae pob un o'r golygfeydd hyn yn rhoi persbectif gwahanol o'r ardal, sut mae wedi datblygu ac addasu'r ffordd mae rhywun yn symud drwy bob rhan ac yn eu profi. Mae meindwr Sant Ioan, yn ogystal â chofeb y rhyfel hefyd yn dirnodau yn y strydlun.

Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol

Mae cyfres o adeiladau rhestredig drwy gydol yr AG sydd wedi'u gwarchod oherwydd eu hansawdd pensaernïol a'u deunydd hanesyddol sydd wedi goroesi. Fel y cyfryw, nid yn unig maen nhw'n cyflwyno esthetig o ansawdd ond maent hefyd yn caniatáu rhywun i ddeall sut all rhywun fod wedi profi'r ardal yn y gorffennol. Lle bynnag mae deunydd hanesyddol yn goroesi, gall hyn arwain y ffordd i ail-gyflwyno manylion sydd wedi'u colli ac ysbrydoli datblygiad y dyfodol sy'n deillio o gymeriad o ansawdd yr ardal.

Y Gofeb Ryfel

Mae'r gofeb ryfel, mainc garreg a rheiliau hanesyddol yn strwythurau rhestredig yn eu hawl eu hunain ond maent hefyd yn rhan o ardal ehangach o balmant y tu allan i'r Cyn-glafdy ac yn cynnig yr unig le cyhoeddus trefol yn yr AG. Mae ei uchder a'i hamlygrwydd yn y stryd yn creu tirnod a chyrchfan, un o'r prin leoedd i ildio ac ystyried eich amgylchoedd. Er bod y parcio ar y stryd yn effeithio'n negyddol arni ar hyn o bryd, y llawr caled y tu ôl iddi a chyflwr yr adeiladau gyferbyn, mae'n dal i fod yn amlwg a gellid atgyfnerthu ei ddefnydd.

Mannau caeedig a golygfeydd allan a rhyngddynt

Yn rhan o'r ardal mae adeiladau ar ymyl y stryd a bylchau ar gyffyrdd, adeiladau mawr wedi'u gosod yn ôl oddi wrth ymyl y stryd a bylchau oherwydd adeiladau wedi'u chwalu neu ail-ddatblygiadau. Mae hyn yn creu cyfres o olygfeydd stryd caeedig hir, gyda chipolygfeydd hwnt ac yma rhwng adeiladau, golygfeydd panoramig ehangach lle ceir bylchau a golygfeydd o'r toeau a thalcenni adeiladau sy'n creu amrywiaeth a diddordeb wrth i chi gerdded drwy'r ardal ac yn profi'r ardal. Gall hyn atgyfnerthu ac anfanteisio'r AG.

Ffiniau hanesyddol

Er bod nifer o ffiniau hanesyddol wedi'u colli, yn yr eglwysi a'r capeli sydd wedi'u lleoli yn eu tir eu hunain ceir cyfres o waliau carreg a rheiliau addurniadol y mae'r cwbl wedi'u rhestru yn eu hawl eu hunain ac yn ychwanegu'n sylweddol at yr olygfa o'r stryd, gan roi toriadau yn y stryd. Ceir hefyd nifer o erddi blaen sydd wedi goroesi gyda waliau a rheiliau ffin yn ogystal â waliau cerrig yn y cefn y mae'r cwbl yn helpu i atgyfnerthu cymeriad yr ardal.

Twf yn y 18fed i'r 20fed Ganrif

Datblygodd Caerfyrddin yn gyflym rhwng y 18fed Ganrif a dechrau'r 20fed Ganrif, gyda'r twf yn lledaenu o'r dwyrain i'r gorllewin o ganol y brif dref. I ddwyrain y dref, tyfodd Heol y Prior yn gyflym ar ddiwedd y 18fed ganrif i gefnogi'r boblogaeth gynyddol ac mae'n gysylltiad gweledol i'r datblygiad hwn ac yn rhan bwysig o hanes y dref.

Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig

Mae toriad amlwg yng ngwedd y dref gan gyfres o eglwysi a chapeli rhestredig y dowch ar eu traws wrth i chi gerdded drwy'r AG gan eu bod wedi'u gosod yn ôl oddi wrth ymyl y stryd. Mae'r cwbl o ansawdd bensaernïol dda ac yn gwahodd archwiliad yn ogystal â chynnal cysylltiad diriaethol â datblygiad hanesyddol cymunedau crefyddol yn y dref.

	Gwerth Tystiolaethol	Gwerth Hanesyddol	Gwerth Esthetig	Gwerth Cymunedol
Patrwm stryd hanesyddol				
Maridunum a Hen Gaerfyrddin				
Brodyr Llwyd				
Amffitheatr Rufeinig				
Potensial archaeolegol				
Digwyddiadau a phobl nodedig				
Cyn-glafdy				
Golygfeydd sylweddol				
Adeiladau ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol				
Cofeb ryfel				
Mannau caeedig a golygfeydd allan				
Ffiniau hanesyddol				
Twf yn y 18fed a'r 20fed Ganrif				
Cyfres o adeiladau crefyddol nodedig				
Gwerth Isel				
Gwerth Canolig				
Gwerth Uchel				

8.0 Materion, Bygythiadau a Chynigion Rheoli

Trosolwg strategol

'Ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu ymddangosiad' yw ardaloedd cadwraeth fel y nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fel y cyfryw, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) sicrhau y rhoddir 'sylw arbennig iddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (Adran 72). Mae gan CSC ddyletswydd 'o bryd i'w gilydd, i lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella unrhyw ran o'u hardaloedd sy'n ardaloedd cadwraeth' (Adran 71).

Gweler y tabl canlynol am grynoded o'r prif faterion a'r bygythiadau a gafodd eu hadnabod wrth baratoi Gwerthusiad Nodweddion Ardal ar gyfer Heol y Prior. Ynglwm â phob eitem mae argymhellion ar gyfer ei rheoli. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn ac nid yw'n eithrio eitemau ychwanegol a allai gyflwyno eu hunain yn y presennol neu wrth ddatblygu'r AG yn y dyfodol.

Mae'r materion dan sylw yn ymwneud â'r eitemau sy'n achosi niwed i ymddangosiad a/neu gymeriad yr ardal. Bygythiadau yw'r eitemau hynny nad ydynt yn achosi niwed ond gallant achosi niwed drwy addasiad ansensitif. Dylai'r eitemau hynny sydd wedi'u hadnabod fel materion gael eu hystyried fel y rheini sy'n cyflwyno bygythiad parhaus. Ochr yn ochr â phob un ceir argymhelliad rheoli i sicrhau bod cymeriad, ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ei harwyddocâd a'i diddordeb pensaernïol a hanesyddol yn cael eu cadw a'u gwella. Gallai'r argymhellion hyn

ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol fod yn sail i gynhyrchu dogfen bolisi fwy manwl ac ehangach ar gyfer rheoli'r ardal, wedi'i chreu gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Mae'r materion wedi'u hadnabod drwy ymweliadau â'r safle, yn ogystal ag ymgynghori â rhanddeiliaid, swyddogion y Cyngor Sir ac aelodau'r cyhoedd. Maent yn ymwneud yn bennaf â'r amgylchedd adeiledig hanesyddol, o ran cadwraeth deunyddiau hanesyddol sy'n bodoli ac effaith datblygiadau newydd ar gymeriad ac ymddangosiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd wedi'u hadnabod i effeithio ar dir cyhoeddus.

Ceir enghreifftiau er mwyn dangos enghreifftiau da a drwg o reolaeth yr eitemau hyn i gynnig rhagor o arweiniad wrth ystyried datblygu yn yr ardal. Mae'n bwysig bod y canlynol yn cael ei ddarllen ar y cyd â'r holl ddogfennau cyfarwyddyd a pholisïau perthnasol, gan gynnwys Cynllun Datblygu Lleol 2018 – 2033 CSC a chanllawiau cynllunio atodol.

Eitem	Mater	Rheolaeth
1.0 Golygfeydd a lleoliad		
1.1	<p>Gall fod yn dasg anodd gwarchod golygfeydd i'r AG ac ohoni, oherwydd ar adegau gall adeiladau sydd â'r potensial i effeithio ar olygfeydd allweddol, ddod yn gwbl amlwg dim ond ar ôl eu hadeiladu. Mae hyn yn gysylltiedig â chyflwyno adeiladau uchel y tu allan i'r AG, y rheini ar dir uwch sy'n effeithio ar olygfeydd i'r pellter o'r tirlun tu hwnt, neu'r rheini sy'n weladwy oherwydd toriadau yn y ffordd. Er enghraifft, er bod rhannau helaeth o osodiad yr AG wedi'i warchod gan derasau sy'n cau tu blaen nifer o'r prif ffyrdd, mae topograffi'r tir a'r toriadau niferus yn cynnig golygfeydd panoramig a phellgyrhaeddol mewn nifer o gyffyrdd yn yr AG.</p>	<p>Dylid asesu'n ofalus datblygiadau o fewn yr ardal gadwraeth i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig ar ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol. Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt.</p> <p>Dylai cynigion sydd â'r potensial i effeithio a rhwystro golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, gael eu hystyried yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sy'n dangos effaith cynigion er mwyn dangos yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal neu ei gosodiad.</p>
1.2	<p>Mae'r mannau gwyrdd sy'n bodoli eisoes yn cynnig toriadau pwysig i'r adeiladau ac yn gofyn gwarchodaeth barhaus, effeithiol, yn enwedig yn ystod gwaith datblygu newydd ac addasu. Gall colli coed ar ffiniau newid golygfeydd allweddol yn sylweddol ar hyd yr AG. Er enghraifft, mae colli'r coed ar y stryd ger y cyn-glafdy wedi newid yn sylweddol y golygfeydd o'r stryd yn y lle hwn.</p>	<p>Dylid cynnal yn weithredol mannau gwyrdd sylweddol, a dylid mabwysiadu prosesau rheoli sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig, a'u gwerth ecolegol, yn cael ei gadw a'i wella. Mae lle ar gyfer mwy o goed ac i blannu pethau eraill er mwyn gwella ymddangosiad yr ardal gadwraeth a'i photensial am fioamrywiaeth, ac mae hyn yn rhywbeth i'w annog. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli coed neu fannau gwyrdd sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal.</p>



Eitem	Mater	Rheolaeth
2.0 Dymchwel adeiladau		
2.1	Gall colli'r adeiladau ar linell y stryd achosi toriadau sy'n amharu ar olygfeydd gweddluniol hir sy'n nodweddiadol o'r ardal a gall arwain at dalcenni gwag a golygfeydd anfwriadol tuag allan. Er enghraifft, yn achosion lle mae adeiladau wedi'u tynnu i greu maes parcio i orllewin y cyn-glafdy, mae hyn wedi creu golygfeydd o ddatblygiad cyfoes yr 20fed Ganrif i'r de a thoriad mawr yng ngolygfa'r stryd.	Mae nifer o adeiladau rhestredig ac adeiladau anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r adeiladau hyn a'u nodweddion. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn creu bylchau modern a fyddai'n amharu ar olygfeydd gweddluniol hir o linellau stryd sefydledig.
2.2	Gall dymchwel, yn llwyr neu'n rhannol, adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu ymddangosiad yr AG erydu ansawdd bensaernïol yr ardal. Gall hyn gynnwys adeiladau cyfan ar gyfer eu hailddatblygu neu ardaloedd rhannol megis simneiau, waliau ffin ac estyniadau.	Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Mae rhagdybiaeth gref y bydd adeiladau a nodweddion sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal gadwraeth yn cael eu gwarchod.
3.0 Ailddatblygu		
3.1	Gall defnyddio deunyddiau modern nad ydynt yn cyd-fynd â'r cyfuniad presennol o ddeunyddiau neu nad yw'n briodol eu defnyddio, erydu cymeriad hanesyddol ac arwyddocâd yr AG. Er y dylai adeilad fod yn addas i'r presennol, bydd peth gwarchodaeth o gyfuniad o ddeunyddiau gwreiddiol yr AG yn sicrhau parhad. Yn yr un modd, mae adeiladau sydd wedi'u dylunio'n dda wedi achosi niwed i'r AG; rhaid parchu nodweddion gwreiddiol dyluniadau'r 19eg Ganrif rhag achosi rhagor o niwed.	Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, mäs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleodedd 2020.



Eitem Mater

3.2 Pan mae cysondeb yn ymwneud ag uchder lloriau, màs, deunydd, manylion pensaernïol, maint y plot a'r berthynas â'r stryd, gall newidiadau i hyn achosi unrhyw wyriadau a all gael effaith uniongyrchol, yn enwedig lle ceir golygfeydd hir. Er enghraifft, cyflwyno talcenni a gwaith brics i ddatblygiadau cyfoes o gwmpas y gyffordd gyda Lôn yr Hen Dderwen.

Rheolaeth

Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Yn gyffredinol, dylai pob gwaith i adeiladau hanesyddol, addasiadau ac estyniadau, ymateb yn gadarnhaol i arddull bensaernïol wreiddiol yr adeilad, ei osodiad a dylai wella ei ymddangosiad traddodiadol. Wrth ystyried unrhyw gynigion, dylid cyfeirio at Ganllaw Creu Lleoedd 2020.





4.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol

4.1 Mae topograffi'r ardal yn golygu y gall cyflwyno eitemau fel erialau a dysglau lloeren erydu cymeriad, yn enwedig mewn rhesi o adeiladau o arddull gyffelyb. Gellir gweld hyn yn y rhes o fythynnod sy'n deillio o'r 19eg Ganrif i'r dwyrain o Lôn yr Hen Dderwen.

Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau o'r fath.






Eitem	Mater	Rheolaeth	
4.2	<p>Gall cyflwyno'r hyn sy'n ymddangos yn fân weithiau gael effaith gronnus ar yr adeilad yn ei gyfanrwydd a gosodiad yr AG. Mae hyn yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:</p> <p>Newid ffenestri i rai PVC</p> <p>Cyflwyno gwasanaethau newydd sydd wedi'u gosod mewn lle amlwg</p> <p>Cyflwyno dysglau lloerenni</p> <p>Colli nwyddau dŵr glaw haearn bwrw</p> <p>Gosod teils clai coch neu deils concriid yn lle llechi</p> <p>Colli simneiau</p> <p>Colli drysau ffrynt panelog pren gyda'u canopiau a setiau drysau</p> <p>Colli ffiniau hanesyddol megis rheiliau a waliau cerrig rwbel</p>	<p>Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y lliwiau nodweddiadol, manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai'r canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae'n briodol.</p>	
4.3	<p>Mae disodli rendr calch traddodiadol gyda gro chwipio wedi cael effaith sylweddol ar adeiladau a golygfeydd drwy'r AG.</p>	<p>Dylid annog y defnydd o ddeunyddiau traddodiadol megis rendr calch a dylid gwrthod ceisiadau i gyflwyno plastr a rendr amhriodol.</p>	

Eitem	Mater	Rheolaeth
4.4	Ymddengys bod gwaith anawdurdodedig i adeiladau yn broblem gyffredin, gan gynnwys gwaith megis disodli nodweddion hanesyddol megis ffenestri a drysau. Mae hyn wedi arwain at erydiad sefydlog o gymeriad rhai rhannau o'r AG. Pan mae gwaith anawdurdodedig wedi'i wneud, gall hyn annog perchnogion eiddo eraill i wneud gwaith tebyg a gall arwain at effaith niweidiol gronol ar raddfa fwy.	Pan mae'n briodol, dylai'r cyngor geisio camau gweithredu gorfodol er mwyn datrys gwaith sydd heb ei awdurdodi. Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch y lliwiau nodweddiadol, manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Dylai canllawiau dylunio hefyd gynnwys cyngor ar ôl-osod adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er mwyn gwella eu perfformiad thermol a gosod ffynonellau ynni adnewyddadwy, heb niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau nad oes angen caniatâd ar eu cyfer ar hyn o bryd.
4.5	The loss of features such as chimneys and the introduction of dormers can fundamentally change the roof-scape and have a detrimental impact on views, particularly in light of the topography of the area which provides long-ranging views of buildings within the CA.	Dylid datblygu canllawiau dylunio manwl i gynnwys gwybodaeth ynghylch y lliwiau nodweddiadol, manylion pensaernïol megis ffenestri, a deunyddiau a geir yn yr ardal i gynorthwyo perchnogion tai sydd eisiau gwella eu heiddo mewn ffyrdd sy'n fuddiol i gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau rhestredig pryd bynnag mae'n briodol. Bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli nodweddion traddodiadol sy'n cyfrannu at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth.
4.6	Ymddengys nad yw safonau atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau wedi'u cynnal ar draws yr AG gan fod nifer o adeiladau mewn cyflwr gwael. Oherwydd natur yr AG, mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar olygfeydd a all arwain at golled, yn rhannol neu'n llwyr, o asedau treftadaeth arwyddocaol.	Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau a'r strwythurau o fewn yr Ardal Gadwraeth.



Eitem	Mater	Rheolaeth
5.0 Dodrefn stryd, arwyddion, ffyrdd		
5.1	Gall mwy o draffig a strwythurau ffyrdd wedi'u rheoli'n wael gael effaith niweidiol ar gymeriad cyffredinol yr ardal, gan achosi colled mewn mannau stopio, ac ardaloedd ymgynnull a fyddai fel arall yn caniatáu eneidiau i fyfrio a gwerthfawrogi. Mae mannau croesi prin a phalmentydd cul hefyd yn achosi i'r strydoedd fod yn ddatgysylltiedig â'i gilydd a diffyg gwerthfawrogiad o'r adeiladau oherwydd dwyster y traffig yn cymylu lloriau is.	Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o bedestreiddio a gwella strwythur ffyrdd. Annog a chefnogi datblygiadau newydd mawr a fyddai'n gwella'r cysylltedd i gerddwyr a beicwyr ac yn ymgorffori mannau cyhoeddus.
5.2	Yn nodweddiadol, mae'r ffyrdd, palmentydd a thriniaethau cyfoes i ffiniau wedi'u gwneud o ddeunyddiau modern a gallant dynnu oddi ar leoliad yr adeiladau a'r mannau cyhoeddus. Gall hyn wanhau'r prif byrth i mewn i'r AG, o'i chwmpas a thrwyddi. Er enghraifft, polion pren yn yr amffitheatr Rufeinig a lloriau caled ger y gofeb Rhyfel Byd Cyntaf.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd.
5.3	Mae diffyg cydlynid yn y triniaethau i balmentydd, ffyrdd, a llwybrau cerdded, gan gynnwys diffyg cydlynid yn y defnydd o ddeunyddiau, arwyddion, marciau'r ffordd a thriniaethau i rwystrau. Gall hyn arwain at ddirywiad yng nghymeriad mannau cyhoeddus a newidiadau rhwng strydoedd a fyddai cysylltiad cryf rhyngddynt fel arall. Mae gwaith atgyweirio yma ac acw a dulliau atgyweirio amhriodol wedi arwain at ddirywiad cyffredinol yn y strydlun yn rhai ardaloedd, megis Y Rhodfa.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd.



Eitem	Mater	Rheolaeth	
6.0 Triniaethau i ffiniau a pharcio			
6.1	Mae'r cynnydd yn y galw am barcio ar safle ac ar y stryd wedi arwain at golled yn y ffiniau hanesyddol er mwyn ymgorffori lloriau caled a lleoedd parcio. Gall hyn wanhau caledwch ymyl y stryd sy'n nodweddiadol o'r ardal, amharu ar olygfeydd drwy'r AG, i mewn iddi ac allan ohoni ac addasu'r strwythur hanesyddol. Er enghraifft, Rhodfa'r Gogledd a Stryd Penuel.	Dylid cefnogi ailgyflwyno waliau ffiniau traddodiadol. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli waliau ffiniau hanesyddol a gerddi blaen sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal. Gellid ystyried defnydd ehangach Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel bod angen caniatâd cynllunio ar gyfer addasiadau i waliau ffiniau hanesyddol, waeth beth fo'u uchder.	
6.2	Mae parcio ar y stryd yn digwydd ar y rhan fwyaf o strydoedd eilaidd ac ardaloedd ar hyd Heol y Prior, a all ddominyddu rhannau helaeth o'r golygfeydd drwy'r AG er anfantais iddi.	Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o bedestreiddio mannau allweddol, gwella strwythur ffyrdd a pharcio.	
6.3	Gall cyflwyno deunyddiau modern i greu ffiniau newydd a lloriau caled sy'n mynd yn erbyn yr AG neu wedi'u gwneud i ansawdd wael wanhau cymeriad ac amharu ar olygfeydd.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd.	

Eitem	Mater	Rheolaeth
7.0 Dyluniad blaen siopau		
7.1	<p>Mae cyfraniad blaen siopau at yr AG yn arwyddocaol, a chyflwyno dyluniadau amhriodol i flaen siopau yn gallu cael effaith negyddol ar gymeriad yr ardal. Ceir nifer o enghreifftiau o flaenau siopau hanesyddol yn yr AG a lle bynnag mae'r rhain yn bodoli, maent yn gwneud cyfraniad pwysig at y strydun a gallant ysbrydoli dyluniad y dyfodol sy'n seiliedig ar dreftadaeth.</p> <p>Ymhlith y nodweddion sy'n cael effaith negyddol ar yr AG, mae: Diffyg ystyriaeth rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uwch ei ben. Er enghraifft, ailadrodd lled baeau, a chydabyddiaeth o fanylion ac arddull pensaernïol yr adeilad presennol.</p> <p>Diffyg ystyriaeth rhwng y llawr gwaelod a'r adeilad uwch ei ben. Er enghraifft, ailadrodd lled baeau, a chydabyddiaeth o fanylion ac arddull pensaernïol yr adeilad presennol.</p> <p>Ffasgiâu mawr nad ydynt yn gymesur â'r adeiladau cyfagos, neu'n llethu blaen yr adeilad ac yn cuddio manylion hanesyddol sydd wedi goroesi.</p> <p>Defnyddio arwyddion amhriodol, gan gynnwys arwyddion sy'n goleuo.</p>	<p>Lle bynnag mae blaen siop presennol yn cynrychioli enghraifft dda o arddull gynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r prif adeilad, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na'i ddisodli. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli blaenau siopau ac arwyddion hanesyddol. Drwy ddisodli blaenau siopau modern anghydnaws gyda dyluniadau mwy priodol, mae potensial i wella'n sylweddol adeiladau hanesyddol ac ardaloedd cadwraeth a dylai hyn fod yn rhywbeth i'w gefnogi.</p> <p>Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannau'r prif adeilad. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio.</p> <p>Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannau'r prif adeilad. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio.</p> <p>Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal, gan gynnwys arwyddion sy'n goleuo.</p>



Eitem	Mater	Rheolaeth
	Defnyddio deunyddiau cyfoes amhriodol, neu liwiau, megis Persbecks, PVC neu alwminiwm, y mae eu natur adlewyrchol yn mynd yn groes i'r cyfuniad o ddeunyddiau yn yr AG neu'r adeiladau cyfagos.	Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannau'r prif adeilad. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio.
	Gweddau dau ddimensiwn, gan gynnwys ardal fawr o haenau gwydrau, sy'n dominyddu'r ffasâd ac yn wahanol i'r modd mae'r gweddau uwch ben wedi'u trin.	Dylai blaenau siopau newydd adlewyrchu graddfa a chyfrannau'r prif adeilad. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio.
	Colli'r rhan o dan ffenestri sy'n rhoi sylfaen i'r blaen siop uwch ei phen a'i seilio yn y strydlun.	Lle mae blaen siop presennol yn enghraifft dda o arddull gynharach sy'n briodol i gymeriad yr ardal a'r prif adeilad, dylid ei gadw a'i adnewyddu yn hytrach na'i ddisodli, gan gynnwys yr holl nodweddion megis y rhan o dan y ffenestr.
	Cyflwyno caeadau diogelwch allanol ar ffenestri a all effeithio'n sylweddol ar ymddangosiad allanol adeilad ac ychwanegu at yr edrychiad o ddiffyg diogelwch.	Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn caeadau diogelwch amhriodol ar ffenestri nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio.
	Cyflwyno cysgodlenni neu ganopiâu ar raddfa amhriodol, yn aml mewn deunyddiau anhraddodiadol, sy'n torri rhythm yr adeiladau teras a llinell yr adeiladau.	Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion a chysgodlenni amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal. Cyhoeddi canllaw dylunio ar gyfer blaenau siopau ac arwyddion i ddangos arfer dda o ran deunyddiau a dylunio, gan gynnwys sut mae ymgorffori cysgodlenni a chanopiâu.

Eitem Mater

Y pwysau o frandio ynghlwm â chyflwyno siopau cadwyn sy'n aml yn dilyn yr un dull i bob siop heb ystyried nodweddion unigol adeilad.

Colli arwyddion crog traddodiadol.

Rheolaeth

Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn arwyddion amhriodol nad ydynt yn ymateb i gymeriad ac ymddangosiad traddodiadol yr ardal.

Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli arwyddion crog traddodiadol. Dylid annog cyflwyno arwyddion crog traddodiadol gan y gallant fod o fudd i gymeriad weddau stryd a lleihau pwysau i ddarparu arwyddion rhy fawr neu ychwanegol yn rhywle arall.

Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
8.0 Golygfeydd a gosodiad		
8.1	<p>Gall effaith datblygiad ar osodiad yr amffitheatr a'r rhandiroedd fod yn arbennig o sylweddol wrth ystyried pwysigrwydd yr ardaloedd hyn a'r golygfeydd panoramig y gellid effeithio arnynt. Mae angen ystyried a rheoli'n ofalus unrhyw ddatblygiad ar gyrion yr henebion, neu sydd â chysylltiad gweledol ar ei draws neu ohono. Byddai'r amffitheatr yn elwa o reolaeth yn ogystal â chyfaniad dehongliadau, dynodi llwybrau, a gwarchod ac atgyfnerthu ei phwysigrwydd.</p>	<p>Dylid asesu'n ofalus datblygiadau ger yr amffitheatr a'r rhandiroedd i ddeall effaith y cynigion ar arwyddocâd yr ardal gadwraeth. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig ar ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol. Ni ddylai datblygiadau newydd o fewn yr ardal gadwraeth neu ei gosodiad rwystro neu dynnu oddi ar olygfeydd pwysig o fewn yr ardal gadwraeth, tuag ati neu ohoni. Mae golygfeydd a thirnodau pwysig wedi'u pwysleisio yn y gwerthusiad, ond efallai y byddai eraill yn adnabod mwy ohonynt.</p> <p>Dylai cynigion sydd â'r potensial i effeithio a rhwystro golygfeydd pwysig sy'n cyfrannu at arwyddocâd yr ardal gadwraeth, a'r asedau treftadaeth oddi mewn iddi, gael eu hystyried yn ofalus. Mae'n bosibl y bydd angen golygfeydd wedi'u creu ar gyfrifiaduron sy'n dangos effaith cynigion er mwyn dangos yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal neu ei gosodiad</p>
8.2	<p>Mae strydoedd ochr a chefn adeiladau yn rhan nodweddiadol o'r AG, gan gynnig cipolygfeydd oddi wrth y brif dramwyfa. Oherwydd diffyg gwelededd ymddangosiadol, gall yr ardaloedd hyn annog ymddygiad gwrthgymdeithasol megis taflu sbwriel, difrod i adeiladau, manau cyhoeddus, a graffiti. Yn ogystal, gall yr ardaloedd hyn ddioddef o ddiffyg cynnal a chadw cyffredinol ar dir cyhoeddus a thriniaethau i ffiniau, sy'n erydu cymeriad yr ardaloedd hyn.</p>	<p>Dylid asesu'n ofalus cynigion i ddatblygu i ddeall effaith y cynigion ar gymeriad ac ymddangosiad y strydoedd ochr a'r adeiladau cefn, yn ogystal â golygfeydd allweddol a phrif dramwyfeydd. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol.</p>



Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
9.0 Dymchwel adeiladau a strwythurau		
9.1	Gellir defnyddio cyflwr gwael adeiladau gwag neu sydd wedi dioddef o ddiffyg cynnal a chadw i roi pwysau ar yr Awdurdod Lleol ar gyfer dymchwel ac ailddatblygu. Gall hyn arwain at y camddealltwriaeth bod ailddatblygu ar raddfa fawr yn briodol, pan allai rheolaeth ofalus o addasiadau'r dyfodol ailgyflwyno cymeriad gwreiddiol yr adeiladau hyn, atgyfnerthu'r AG, ac osgoi colli'r carbon corfforedig sydd eisoes yn gysylltiedig â'i waith adeiladu gwreiddiol.	Pan mae tystiolaeth o esgeulustod bwriadol i ased treftadaeth, neu ddifrod iddo, ni ddylid ystyried cyflwr gwael yr ased mewn unrhyw benderfyniad. Mae nifer o adeiladau rhestredig ac anrhestredig teilwng sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, ac mae rhagdybiaeth gref i gadw'r rhain. Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach nag ei ddisodli ag adeilad newydd. Dylid annog gofalu ac aildefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw gwell, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni. Dylid annog ailgyflwyno nodweddion traddodiadol drwy greu canllaw dylunio sy'n arbennig ar gyfer yr AG. Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol.
10.0 Ailddatblygu		
10.1	Mae plotiau cornel yn byrth pwysig i'r AG a thrwyddi, ac oherwydd topograffi'r ardal maent yn ychwanegiadau amlwg at y strydlun.	Dylai cynigion i ddatblygu ymateb i gymeriad ac ymddangosiad unigryw a gosodiad yr ardal gadwraeth, a'u parchu, a dylent fod ar raddfa, dwyster, uchder, ffurf, màs, strwythur, lleoliad plot, deunyddiau, lliwiau, cyfansoddiad a dyluniad manwl. Dylai unrhyw ddatblygiad newydd yn yr ardal gadwraeth fod o ansawdd, o ran dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir. Pan mae adeiladau ar gorneli wedi'u hailddatblygu neu eu disodli, mae angen dealltwriaeth am eu heffaith a sut allant helpu i gryfhau'r mannau hyn.
10.2	Mae gan yr AG botensial archaeolegol uchel a allai fod yn risg drwy ailddatblygu a chloddio o dan y ddaear.	Wrth ystyried unrhyw gynnig am ddatblygiad sylweddol, dylid asesu'n broffesiynol yr effaith bosibl ar olion archaeolegol a chymryd cyngor o ran y ffordd orau o'u cadw a'u gwarchod.



Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
11.0 Addasiadau amhriodol a cholli nodweddion gwreiddiol		
11.1	Gall dewis lliw amhriodol gael effaith niwedol ar olygfeydd o gymeriad.	
12.0 Dodrefn stryd, arwyddion a ffyrdd		
12.1	Gall 'annibendod' yn y stryd drwy ormodedd o arwyddion, polion, biniau, a rhwystrau, yn enwedig ar ochr y ffyrdd, achosi dryswch, effeithio ar olygfeydd, a thynnu oddi ar yr amgylchedd ehangach.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd. Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio priodol ar gyfer adeiladau a'r strwythurau o fewn yr Ardal Gadwraeth.
12.2	Mae cydlynu dodrefn stryd o ansawdd yn sicrhau bod yr ardal wedi'i huno a gall wella ansawdd y mannau cyhoeddus yn sylweddol. Byddai'n fuddiol hefyd cyflwyno rhagor o eitemau ym mannau cyhoeddus er mwyn i bobl gael gorffwys a myfyrio ar yr hyn sydd o'u cwrdd.	Cyhoeddi canllawiau dylunio ar ddyluniad strydoedd a mannau cyhoeddus i annog agwedd gydlynol at oleuo, deunyddiau, triniaethau i ffiniau a dodrefn. Blaenoriaethu cyfres o waith adnewyddu i atgyfnerthu ymddangosiad strydoedd, gan gynnwys tacluso, cynnal a chadw'r gwaith paent a chyflwyno deunyddiau priodol ar gyfer arwynebau a dodrefn stryd. Cyhoeddi canllawiau ar gynnal a chadw ac atgyweirio adeiladau a strwythurau yn briodol o fewn yr Ardal Gadwraeth.
	Mae enwau lleoedd Cymraeg yn rhan bwysig o hanes y dref a phryd bynnag mae'r rhain yn goroesi, dylid eu cynnal.	Gellid cynhyrchu rhagor o ganllawiau ar ddylunio arwyddion yn yr Ardal Gadwraeth ac ymgorffori enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer enwau ffyrdd a lleoedd.



Eitem	Bygythiad	Rheolaeth	
13.0 Triniaethau i ffiniau a pharcio			
13.1	Mae angen atal rhagor o barcio ar y stryd ar Heol y Prior er mwyn osgoi unrhyw effaith bellach ar olygfeydd drwy'r ardal a chynyddu symudiadau traffig a'r seilwaith priffyrdd cysylltiedig.	Cynhyrchu a gweithredu strategaeth ar gyfer cyfleoedd am fwy o bedestreiddio mannau allweddol, gwella strwythur ffyrdd a pharcio. Dylid atal parcio ar y stryd ar Heol y Prior.	
13.2	Mae gerddi blaen yn rhan gref o gymeriad yr ardal a dylid atal cael gwared arnynt er mwyn gwneud lle i barcio ar y stryd.	Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn colli gerddi blaen sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr ardal.	
14.0 Coed a Thirlunio			
14.1	Gall fod yn anodd rheoli'r golled o goed y tu hwnt i'r AG oherwydd yn aml nid ydynt yn rhan o warchodaeth ardaloedd dynodedig. Er enghraifft, gellir gweld y coed sydd y tu ôl i Heol y Prior ar yr ymyl ogleddol wrth deithio o'r gorllewin i'r dwyrain ond gellid cael gwared arnynt heb fod angen caniatâd neu heb ystyried yr effaith ar olygfeydd.	Cyngor i asesu a dynodi Gorchmynion Cadw Coed ar goed yng ngosodiad yr Ardal Gadwraeth os ymddengys iddynt bod gwneud hynny o fudd i'r amwynder.	
14.2	Gall y defnydd o goed, fflora a ffawna estron fod yn groes i'w hamgylchfyd os cânt eu dewis heb ystyriaeth ddyledus i'w cyd-destun.	Dylid annog y defnydd o goed, fflora a ffawna brodorol pan gaiff cynlluniau tirlunio eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol.	

Eitem	Bygythiad	Rheolaeth
15.0 Newid defnydd		
15.1	<p>Gall cyflwyno gweithgareddau masnachol i hen adeiladau preswyl achosi niwed drwy;</p> <p>Gyflwyno arwyddion nad ydynt yn ymateb i gyfrannau neu strwythur yr adeilad.</p> <p>Cyflwyno ffenestri blaen siopau sy'n llethu graddfa ddomestig yr adeilad ac yn arwain at golli deunydd gwreiddiol.</p> <p>Gall rhannu perchnogaeth achosi dryswch mewn perthynas â chynnal a chadw ac arwain at ddirywiad cyffredinol yr adeilad.</p>	<p>Yn achos unrhyw gynnig i newid defnydd adeiladau neu israniadau presennol, byddai angen ystyried yn ofalus yr effaith ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardal gadwraeth, gan gynnwys unrhyw newidiadau dilynol i fynediad ar gyfer danfoniadau, parcio, a gwasanaethau allanol, megis unedau cyddwyso, offer eraill ac addasiadau i agweddau hanesyddol. Bydd y cyngor yn talu sylw arbennig ar ddymunoldeb gwarchod a gwella'r ardal gadwraeth a bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad yr ystyrir yn niweidiol.</p>

16.0 Cyffredinol

- 16.1 Archaeoleg
- Wrth ystyried unrhyw gynnig am ddatblygiad sylweddol, dylid asesu'n broffesiynol yr effaith bosibl ar olion archaeolegol a chymryd cyngor o ran y ffordd orau o'u cadw a'u gwarchod. Dylid hefyd rhoi ystyriaeth i sut allai hen ddefnydd, strwythurau ac adeiladau a arferai fod ar y safle ddylanwadu ar ddylunio Elfennau newydd.
- 16.2 Yr Argyfwng Hinsawdd
- Dylid ystyried yn ofalus cynigion i ôl-osod er mwyn gwella effeithiolrwydd ynni i sicrhau cydnawsedd â deunyddiau adeiladu traddodiadol, ymarferoldeb ac arwyddocâd.
- Os cynigir dymchwel adeilad, dylid rhoi ystyriaeth i'r cylch carbon oes, gan ystyried hefyd carbon corfforedig yr adeilad presennol. Gall fod yn briodol cadw ac addasu'r adeilad presennol yn hytrach na'i ddisodli gydag adeilad newydd. Dylid annog gofalu ac ailddefnyddio adeiladau traddodiadol a hanesyddol yn yr ardal, er mwyn arbed ynni a charbon deuocsid, drwy gynnal a chadw, rheoli a mesurau effeithiolrwydd ynni gwell.
- 16.3 Gweithredu ac Adolygu
- Mae angen glynu wrth yr holl ddyletswyddau statudol dan y Deddfau Cynllunio yn sgil dynodiad ardal gadwraeth. Dylai'r Cyngor fabwysiadu'r argymhellion a geir yma a ffurfio cynllun rheoli ffurfiol (bwriedir i'r adroddiad hwn ffurfio sylfaen hwn) i'w adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod y polisiau yn parhau i fod yn ddefnyddiol a pherthnasol. Dylai'r Cyngor geisio ymgymryd ag astudiaethau perthnasol eraill a chreu rhagor o arweiniad fel y nodwyd yma, pan mae'r adnoddau ar gyfer hyn ar gael.
- 16.4 Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth
- Dylid darparu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth gan ymgeiswyr, lle ystyrir bod cynnig yn effeithio ar yr ardal gadwraeth (boed yn y ffin neu ei osodiad) neu ased treftadaeth oddi mewn iddi.

9.0 Cyfleoedd

Mae'r cyfleoedd canlynol yn ymwneud â phosibiliadau adnabyddedig ar gyfer dad-wneud niwed, gwella'r ardal a gwerthfawrogiad ohoni, neu reoli datblygiad. Mae'r rhain wedi'u hadnabod drwy baratoi'r ddogfen hon a'r adran materion, bygythiadau a rheolaeth flaenorol.

1. Mae cofeb y Rhyfel Byd Cyntaf yn ddarn pwysig o'r treflun a gallai gynnig lle braf i'r cyhoedd yn y pen hwn o'r AG. Byddai'n helpu i gyflwyno tirlunio caled neu feddal o ansawdd ac ailddatblygu'r adeiladau yn yr ardal pan mae'r cyfle yn codi.
2. Mae'r Amffitheatr Rufeinig yn rhan bwysig o stori Caerfyrddin ond mae ar wahân i bopeth a rhwydd yw ei hesgeuluso er anfantais iddi a'r AG. Byddai'r safle yn elwa o reolaeth yn ogystal â chyfaniad dehongliadau, dynodi llwybrau, a ffin wedi'i dylunio'n dda i'r ffordd er mwyn gwarchod ac atgyfnerthu ei bwysigrwydd. Byddai hefyd yn helpu i ddiffinio'r mynediad i'r AG o'r dwyrain.
3. Byddai ailddatblygu'r man cyhoeddus yn y porth orllewinol yn helpu i gryfhau'r gornel hon ac yn fynediad amlwg i'r AG, yn ogystal â helpu i wella gosodiad Eglwys San Pedr.
4. Ar hyn o bryd, mae'r plot manwerthu gwag i'r gorllewin o'r Cyn-glafdy yn niweidiol i'r AG, yn enwedig mewn perthynas â golygfeydd o'r ardal, i'r ardal a thrwy'r ardal. Os bydd cyfle yn codi i ailddatblygu'r safle hwn, gallai cyflwyno adeiladau i ymyl y stryd, sydd o ansawdd ac yn parchu màs, uchder, deunydd, manylion yr ardal ail-sefydlu'r adran goll hon o Heol y Prior a chuddio golygfeydd sy'n tynnu oddi ar yr ardal.

5. Os ellir dod o hyd i leoliad arall, buddiol i osodiad yr ased pwysig hwn fyddai cael gwared ar yr arwydd stryd y tu allan i Sant Ioan.



1



2




3



4



5



- Ffiniau'r Awdl Gadwaeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Maes cyfle



Atodiadau

Atodiad I: Llyfryddiaeth

Cyhoeddiadau

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 [Deddf Cynllunio \(Adeiladau Rhestredig ac Ard- aloedd Cadwraeth\) 1990 \(legislation.gov.uk\)](#)

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 [well-being-of-future-generations-wales-act-2015- the-essentials.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11, Chwefror 2021 [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 \(llyw.cymru\)](#)

Polisi Cynllunio Cymru, Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017 [Nodyn Polisi Cynllunio Cymru 24 Mai 2017 \(llyw.cymru\)](#)

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017 [Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth hy Byd yng Nghymru \(llyw.cymru\)](#)

Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd [Gynaliadwy Dogfen Egwyddorion Cadwraeth CY \(llyw.cymru\)](#)

Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru, Medi 2021 [Microsoft Word - Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol DOC TERFYNOL \(llyw.cymru\)](#)

Cynllun Adfer a Chyflawni Economaidd Sir Gaerfyrddin, Ebrill 2021 [Adroddiad.pdf \(llyw.cymru\)](#)

Canllaw Creu Lleuedd 2020 [PlacemakingGuideDigitalENG.pdf \(dcfw.org\)](#)

Gwefannau

Cestyll Cymru, 2009, Castell Caerfyrddin, [Castell Caerfyrddin \(castlewales.com\)](#) 16th Mawrth 2022

British History Online, wedi'i gyhoeddi'n wreiddiol gan S Lewis, Llundain, 1849, Carmarthen-Carmarthenshire, [Carmarthen - Carmarthenshire | British History Online \(british-history.ac.uk\)](#), 1 Mawrth 2022

Historic UK, 2021, Carmarthen-Merlin's Fortress, [Carmarthen – Merlin's Fortress - Historic UK \(historic-uk.com\)](#), 1 Mawrth 2022

Cyngor Tref Caerfyrddin, [Merlins Town - Carmarthen Town Council](#), 1 Mawrth 2022

British Listed Buildings, Dyddiadau amrywiol, [British Listed Buildings - History in Structure](#), 1-10 Mawrth 2022

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, 2021, Mapiau Degwm Cymru, [Mapiau Degwm Cymru - Hafan \(llyfrgell.cymru\)](#) 14 Mawrth 2022

The National Library of Scotland, 2021, Mapiau OS â dyddiadau amrywiol, [Map Finder - with Marker Pin - Map Images - National Library of Scotland \(nls.uk\)](#) 1 - 14 Mawrth 2022

Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed, 2022, Caerfyrddin, [CAERFYRDDIN – Ymddiriedolaeth Archaeoleg Dyfed \(dyfedarchaeology.org.uk\)](#) 16 Mawrth 2022



Coflein, 2021, Priordy Sant Ioan; priordy Sant Ioan a Sant Teulyddog (Awstinaidd), Caerfyrddin, [Priordy Sant Ioan;priordy Sant Ioan a Sant Teulyddog \(awstinaidd\), Caerfyrddin | Coflein](#) 20 Mawrth 2022

Atodiad II: Geirfa

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad	Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
A4D	Cyfarwyddyd Erthygl 4	Mesur, a gychwynnir gan awdurdod lleol, lle mae materion gwaith a fyddai fel arfer yn cael eu caniatáu o dan ddeddfwriaeth gynllunio Gorchmynion Datblygu Cyffredinol yn cael eu dwyn o dan reolaeth yr adran gynllunio.	CCC	Cyngor Sir Caerfyrddin	
BAR	Adeilad mewn Perygl	Cofrestr adeiladau, a gynhelir gan awdurdodau lleol (a gefnogir gan Historic England) sy'n cynnwys adeiladau a strwythurau sydd mewn perygl o ddadfeilio, dymchweliad neu golled arall. Fel arfer mae'n nodi rhywfaint o risg ac yn nodi'r math o gamau gweithredu a ystyrir yn angenrheidiol i unioni'r broblem.	GDO	Gorchymyn Datblygu	Gorchymyn, o dan ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol, sy'n nodi'r dosbarthiadau o ddatblygiadau sy'n 'ddatblygiad a ganiateir' ac felly nad oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol arnynt fel arfer
				Cyffredinol	
				Cadw	Y sefydliad sy'n gyfrifol am warchod adeiladau, strwythurau, tirwedd a safleoedd treftadaeth hanesyddol yng Nghymru
AG	Ardal Gadwraeth	Ardal, a ddynodwyd gan yr awdurdod lleol, y mae ei chymeriad yn ddymunol i'w chadw neu wella	ARh	Adeilad Rhestredig	Adeilad o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol a warchodir trwy ei gynnwys ar restr o adeiladau o'r fath a gynhelir gan Cadw. Bydd yr adeilad yn cael ei raddio – gradd 1 am y pwysicaf, Gradd 2* ar gyfer y pwysicaf nesaf neu radd 2 am y gweddill sy'n cynnwys tua 95% o'r cyfanswm
GAG	Gwerthusiad Ardal Gadwraeth	Adroddiad sy'n asesu cymeriad ac effeithiolrwydd yr AG ar adeg benodol			
CPO	Gorchymyn Prynu Gorfodol	Offeryn cyfreithiol ar gyfer prynu tir yn orfodol gan awdurdod lleol neu asiantaeth y llywodraeth ar gyfer diben ddiffiniedig ac am gyfradd deg		Llain Tir Bwrtais	Mae llain tir bwrtais fel arfer yn cael ei nodweddu fel llain hir â wal, gardd neu iard, y tu ôl i adeilad, y mae ei flaen yn wynebu un o'r strydoedd hyn mewn tref neu ddinas â tharddiad canoloesol
	Ffascgia	Y gofod ble mae arwydd yn cael ei arddangos, fel arfer uwchben siop			

Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad	Talfyriad	Term ffurfiol	Diffiniad
LBC	Caniatâd Adeilad Rhestredig	Cymeradwyaeth i wneud gwaith ar adeilad rhestredig (a fyddai fel arall yn drosedd) a gyhoeddwyd gan yr awdurdod lleol ac ar ôl ymgynghori â rhestr benodol o gyrff a sefydliadau amwynder cenedlaethol a lleol	Sn215	Hysbysiad Adran 215	Hysbysiad o dan y deddfau cynllunio y gall awdurdod lleol ei roi i berchnogion neu ddeiliaid ar gyfer tacluso tir neu adeiladau y bernir eu bod yn niweidiol i amwynder ardal
CLI	Cynllun Lleol	Dogfen a baratowyd gan neu ar ran yr awdurdod lleol yn nodi ei bolisi cynllunio am gyfnod penodol i ddod; bydd yn cynnwys polisi ynghylch yr amgylchedd naturiol, cadwraeth, priffyrdd, datblygu adeiladau ymhlith ystod eang o bynciau eraill.	SPG	Canllawiau Cynllunio Atodol	Dogfen sy'n nodi polisi penodol i safle neu ardal y gellir ei defnyddio fel tystiolaeth berthnasol wrth benderfynu ar unrhyw gais cynllunio perthnasol. Bydd cynnwys y ddogfen wedi'i baratoi gyda'r bwriad penodol hwn a bydd angen ei fabwysiadu'n ffurfiol fel un o'i gyfres o ddogfennau cynllunio gan yr awdurdod dan sylw
PPW	Polisi Cynllunio Cymru	Polisi cenedlaethol yn amlinellu canllawiau ar gyfer gwneud penderfyniadau cynllunio	TPO	Gorchymyn Cadw Coed	Gorchymyn a wneir gan awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru i warchod coed penodol, grwpiau o goed neu goetiroedd er budd amwynder. Mae gorchymyn yn gwahardd torri, tocio, brigdorri, dadwreiddio, difrodi'n fwriadol a dinistrio coed yn fwriadol heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod lleol
Deddf P (LBCA) 1990	Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990	Deddf gydgrynhoi a ddaeth â darnau amrywiol blaenorol ynghyd o ddeddfwriaeth mewn un Ddeddf Seneddol			
	Hysbysiad Atgyweirio	Hysbysiad a gyhoeddir dan adrannau 47 a 48 Deddf P (LBCA) 1990 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i berchnogion neu breswylwyr gyflawni gwaith atgyweirio brys i adeiladau rhestredig			

Atodiad III: Mapiau





© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Adeiladau cadarnhaol
- Adeiladau amharol



Ardal Gadwraeth Heol y Prior
Cyfraniad Adeiladau



ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Ardaloedd Cadwraeth Eraill
- Adeiladau rhestredig Gradd II
- Henebion Cofrestredig
- Tinweddau Cofrestredig o Ddiddordeb Eithriadol ac Arbennig yng Nghymru
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA)
- Adeiladau a strwythurau pwysig heb eu rhestru



Ardal Gadwraeth Heol y Prior
Map o'r Dynodiadau



ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Mannau gwyrdd
- Parciau
- Gerddi preifat/lled-breifat
- Coed
- Grŵp o goed

Ardal Gadwraeth Heol y Prior
Coed, Mannau Gwyrdd, Parciau a Gerddi





© Hawffraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2022 Arolwg Ordnans 100023377
© Crown copyright and database rights 2022 Ordnance Survey 100023377

ALLWEDD:

- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Maes cyfle

Ardal Gadwraeth Heol y Prior
Map Cyfleoedd



ALLWEDD:


- Ffiniau'r Ardal Gadwraeth Heol y Prior
- Y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau
- Blaen siopau hanesyddol
- ★ Nodwedd o'r treflun
- Celfi stryd

Ardal Gadwraeth Heol y Prior
Llecynnu Cyhoeddus

Atodiad IV: Adolygiad o'r Ffiniau

Fel rhan o baratoi'r Gwerthusiad Ardal Gadwraeth a'r Cynllun Rheoli hwn, ymgwymerwyd ag adolygiad o ffin yr Ardal Gadwraeth i ddeall y rhesymeg dros ddynodi'r ardal, a pha un ai a yw datblygiad ers ei ddynodiad cychwynnol yn golygu y dylid ail-lunio'r ffin hon ai peidio. Ymgwymerwyd â'r adolygiad hwn drwy gyfres o ymweliadau safle, yn ogystal ag ymchwili ddesg ac ymgynghori â'r Awdurdod Lleol, rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

Mae pedwar addasiad awgrymedig ar gyfer Ardal Gadwraeth Heol y Prior, y mae'r cwbl i'w gweld ar y map canlynol. Mae lleoliad yr addasiadau hyn a'r rhesymau drostynt wedi'u nodi isod:



Ardal 1 – Plot Manwerthu Gwag

Estyniad i'r ffin gyfredol

Ar hyn o bryd, mae'r plot manwerthu gwag i'r gorllewin o'r cyn-glafdy y tu hwnt i ffin yr AG, ond byddai ei ddatblygu yn cael effaith sylweddol ar y golygfeydd i'r ardal, o'r ardal a thrwy'r ardal. Felly, cynigir y dylai'r ffin gynnwys yr ardal hon i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn ymateb i nodweddion arbennig yr AG a bod dealltwriaeth lawn am ei heffaith.



Ardal 2 – Rhodfa'r Gogledd

Estyniad i'r ffin gyfredol

Er mai tai cyfoes sydd fwyaf cyffredin yn Rhodfa'r Gogledd erbyn hyn, cynigir y dylai'r adran fwyaf gogleddol fod yn rhan o'r AG am ddau reswm; yn gyntaf, er mwyn cyflwyno nifer o fythynnod sy'n dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif sy'n ymateb i arddull a manylion adeiladau eraill yr ardal; yn ail, er mwyn gwarchod a gwella golygfeydd o Heol y Prior i'r de a sicrhau bod unrhyw ddatblygiad a all ddigwydd yn y lleoliad hwn o ansawdd sy'n ymateb i statws yr ardal.



Ardal 3 – Parciau a gerddi i ogledd Heol y Prior

Estyniad i'r ffin gyfredol

Mae'r golygfeydd allan at y tirlun ehangach yn y gogledd, y dwyrain a'r de yn agwedd arwyddocaol ar gymeriad yr AG. Wrth i chi gerdded o'r gorllewin i'r dwyrain, cewch gysylltiad parhaus â'r tirlun hwn, a chaiff ei gyfnerthu gan yr olygfa o'r coed sy'n weladwy uwch ben yr adeiladau is sydd i'w cael ar ymyl ogleddol hanner dwyreiniol Heol y Prior. Mae'r coed o fewn yr AG yn cael eu gwarchod rhag eu gwaredu heb ddealltwriaeth lawn am eu heffaith. Cynigir, felly, y dylai'r ardal hon o barc cyhoeddus a'r gerddi cefn fod yn rhan o'r AG er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu colli heb roi ystyriaeth ddilys i'r effaith y gall hynny ei chael ar olygfeydd ehangach o Heol y Prior a'r amffitheatr.



Ardal 4 – Parc Hinds a pharciau chwarae yr Hen Briordy

Estyniad i'r ffin gyfredol

Mae Parc Hinds a pharciau chwarae yr Hen Briordy y tu hwnt i ffin yr AG ar hyn o bryd ond maent yn rhan o safle'r hen Briordy a'r heneb gofrestredig ysylltiedig ochr yn ochr â gerddi'r rhandir. Fel y cyfryw, mae potensial archaeolegol sylweddol i'r lleoliad a allai gyfnerthu ein gwybodaeth ynghylch datblygiad eglwysig Canoloesol, yn ogystal â hanes Caerfyrddin. Bydd cynnwys yr ardaloedd hyn o fewn y ffin yn sicrhau bod y cysylltiad â gerddi'r rhandir yn cael ei gynnal a bod dealltwriaeth am werthoedd hanesyddol, tystiolaethol, esthetig, a chymunedol yr ardaloedd hyn petai cynnig am ddatblygiad yn cael ei gyflwyno.



Atodiad V: Crynodeb o Ddeddfwriaeth, Polisi a Chanllawiau Cysylltiedig

Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- Awdurdodau cynllunio lleol i bennu ardaloedd y mae'n ddymunol eu gwarchod a'u gwella, a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth (adran 69 [1])
- Awdurdodau cynllunio lleol i adolygu eu gweithgareddau blaenorol yn yr ardal hon, gan gynnwys ardaloedd cadwraeth cyfredol, ac ychwanegu mwy o ardaloedd cadwraeth (section 69 [2])
- Awdurdodau cynllunio lleol i ffurfio a chyhoeddi cynigion ar gyfer gwarchod a gwella ardaloedd cadwraeth ac ymgynghori'r cyhoedd mewn perthynas â'r ardal dan sylw, ac ystyried y safbwyntiau sy'n cael eu mynegi (adran 71 [1 a 2])
- Fel rhan o waith awdurdodau cynllunio lleol, bydd swyddogaethau cynllunio yn yr ardal gadwraeth yn 'talw sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella cymeriad neu ymddangosiad yr ardal honno' (adran 72 [1])

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus, y mae'n rhaid iddynt sefydlu a chyhoeddi amcanion wedi'u dylunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad i gyflawni pob un o'r saith nod llesiant. Un o'r nodau hyn yw Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, wedi'i ddisgrifio fel 'cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg'. Mae synergedd clir rhwng y ddyletswydd benodol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 1990, a'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo a gwarchod

treftadaeth, fel y nodir yn Neddf 2015. Gall ardaloedd cadwraeth sy'n cael eu gwarchod a'u gwella'n briodol wella ansawdd bywyd a llesiant pawb.

Polisi Cynllunio Cymru Chwefror 2021

- Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys nodweddion hanesyddol unigol sy'n adnabyddus fel asedau hanesyddol. Ystyri'r ardaloedd cadwraeth yn asedau hanesyddol.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.6 bod amcanion penodol Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag amgylcheddau hanesyddol yn ceisio: [...] gwarchod neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth, gan helpu ar yr un pryd i sicrhau eu bod yn parhau'n llewyrchus ac yn ffyniannus.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.14 y dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid diogelu neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth a'i lleoliad. Mae angen rheoli ardaloedd cadwraeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn diogelu neu wella eu cymeriad a'u golwg a gwireddu eu gwerth treftadaeth yn llawn. Dylai awdurdodau cynllunio lunio eu meini prawf eu hunain ar gyfer adolygu ardaloedd cadwraeth hen a/ neu newydd. Gall paratoi arfarniadau a chynlluniau rheoli ar gyfer ardaloedd cadwraeth gynorthwyo awdurdodau cynllunio i arfer eu swyddogaethau rheoli datblygiadau.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.15 bod rhagdybiaeth gref yn erbyn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, gan gynnwys hysbysebion, sy'n amharu ar gymeriad neu olwg ardal gadwraeth neu ei lleoliad i lefel annerbyniol. O dan amgylchiadau eithriadol, gellir diystyru'r rhagdybiaeth o blaid gwaith datblygu yr ystyri ei fod yn ddymunol ar sail buddion cyhoeddus.

- Nodir ym Mharagraff 6.1.16 y gall ardal gadwraeth gael ei diogelu neu ei gwella gan ddatblygiad sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal neu nad yw'n amharu arnynt. Gellir ystyried mesurau lliniaru hefyd, a allai olygu bod datblygiad arfaethedig yn cael effaith niwtral neu gadarnhaol mewn ardal gadwraeth.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.17 bod dynodi ardaloedd cadwraeth yn golygu y gellir rheoli'r gwaith o ddymchwel adeiladau anrhestredig o fewn yr ardaloedd hyn yn gyfan gwbl neu'n sylweddol, ond nid oes angen caniatâd ardal gadwraeth er mwyn dymchwel adeiladau yn rhannol. Mae'r gweithdrefnau fwy neu lai yr un peth â'r gweithdrefnau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig. Wrth ystyried cais am ganiatâd ardal gadwraeth, dylid ystyried effeithiau ehangach y gwaith dymchwel ar yr ardal o amgylch yr adeilad ac ar ddiddordeb pensaernïol, archaeolegol neu hanesyddol yr ardal gadwraeth yn gyffredinol. Dylid hefyd ystyried strwythurau newydd. Dylid profi cynigion yn unol ag arfarniadau o ardaloedd cadwraeth, lle maent ar gael.
- Nodir ym Mharagraff 6.1.29 y dylai cynlluniau datblygu ystyried cynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol. Rhaid iddynt fod yn unigryw ac ymwneud yn unig â'r elfennau treftadaeth hynny sy'n cael eu gweld fel ystyriaethau pwysig o safbwynt cynllunio lleol. Gall gynnwys polisiâu penodol i'r ardal leol yn ymwneud â:
- Adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth – gall cynlluniau datblygu gynnwys polisiâu sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu'r amgylchedd adeiledig, gan gynnwys gwarchod neu wella adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth a'u lleoliad. Gallant hefyd gynnwys

polisiau sy'n ymwneud ag ailddefnyddio neu ddatblygiad newydd sy'n effeithio ar ardaloedd a/neu adeiladau hanesyddol penodol, a allai fod o gymorth i sicrhau adfywio trefol a gwledig. Ni ddylai cynlluniau datblygu gynnwys polisiau ar gyfer dynodi ardaloedd cadwraeth newydd nac ymestyn ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes, ac ni ddylent gynnwys datganiadau neu gynigion manwl ar gyfer ardaloedd cadwraeth sy'n bodoli eisoes. Dylai'r broses o asesu, diffinio'n fanwl neu adolygu ffiniau a llunio cynigion ar gyfer ardaloedd cadwraeth unigol gael ei dilyn ar wahân i'r cynllun datblygu.

- Nodir ym Mharagraff 1.36 bod gan Weinidogion Cymru bwerau wrth gefn i wneud eu Gorchmynion Dirymu/Addasu neu Ddirwyn i Ben eu hunain, ond dim ond ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio. Byddai ymyrraeth o'r fath yn gwrthdroi dyfarniad awdurdod cynllunio lleol ar fater sy'n gyfrifoldeb iddo ef yn y lle cyntaf, a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellid cyfiawnhau hynny. Yr egwyddor gyffredinol yw y dylai camau o'r fath gael eu hystyried dim ond lle bernir bod y penderfyniad gwreiddiol yn gwbl anghywir, ac y byddai niwed yn cael ei wneud i fudd ehangach y cyhoedd. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ddefnyddio pwerau diofyn Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag adeiladau rhestredig a chaniatâd ardal gadwraeth.

Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol, 2017

Nodir y canlynol yn y ddogfen hon:

- Awdurdodau cynllunio lleol sy'n gyfrifol am ddynodi ardaloedd cadwraeth a nhw sy'n cadw'r wybodaeth ddiffiniol am eu ffiniau.
- Gall awdurdod cynllunio lleol ddatblygu a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Ategol i'w helpu i gyflawni polisiau yn y cynllun

datblygu lleol. Gall canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol gynnwys pynciau fel: Cynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth.

- Mae Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol adnabod ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, y mae'n ddymunol cadw neu wella eu cymeriad neu olwg a'u dynodi'n ardaloedd cadwraeth. Dylent adolygu eu hardaloedd o bryd i'w gilydd i ystyried a oes angen rhagor o ddynodiadau neu adolygiadau. Yn ogystal, mae gan Weinidogion Cymru rymoedd i ddynodi ardaloedd cadwraeth ar ôl ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol. Grym wrth gefn yw hwn sy'n cael ei ddefnyddio yn achosion eithriadol, er enghraifft, pan mae gan ardal ddiddordeb sy'n fwy na ddiddordeb lleol.

6.2 Mae dynodi ardal gadwraeth yn rhoi'r sylfaen ar gyfer polisiau sydd wedi'u dylunio i gadw neu wella pob agwedd ar gymeriad neu olwg sy'n diffinio diddordeb arbennig ardal: gall hyn gynnwys patrwm yr anheddiad a threfn y lle a'r llwybrau, yn ogystal ag arddull a math yr adeilad, a'r defnydd o ddeunyddiau a manylion. Gall seilwaith gwyrdd fod o bwys hefyd, ond nid yw dynodi rhywle yn ardal gadwraeth yn ffordd briodol o warchod nodweddion y tirlun, ac eithrio pan maent yn ffurfio rhan annatod o'r amgylchedd adeiledig hanesyddol.

6.3 O bryd i'w gilydd, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol lunio a chyhoeddi cynigion ar gyfer cadw a gwella ardaloedd cadwraeth mewn cynllun rheoli. Yn unol ag arfer orau, dylid gwneud hyn bob pump i ddeg mlynedd. Mae'n arfer dda i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu'r cynllun rheoli fel canllawiau

cynllunio ategol. Rhaid iddynt hefyd roi sylw arbennig i ddymunoldeb gwarchod neu wella ardaloedd cadwraeth wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Dan amgylchiadau eithriadol lle nad yw rhan o ardal gadwraeth, neu ardal gadwraeth gyfan, bellach yn cynnwys y diddordeb arbennig a arweiniodd at ei dynodi, gellir addasu neu ganslo'r dynodiad hwnnw.

6.4 Gwerthusiad ardal cadwraeth yw'r sylfaen ar gyfer unrhyw gynnig i warchod neu wella. Mae'n cynnig darlun manwl o ddiddordeb arbennig ardal ac yn adnabod cyfleoedd a blaenoriaethau gweithredu a all roi sylfaen am gynllun rheoli mwy manwl. Dylai gynnwys dadansoddiad o'r polisi ac anghenion rheoli'r ardal, gan gynnwys asesiad o effeithiolrwydd rheolyddion cynllunio cyfredol, yr angen am warchodaeth atodol ac adnabod ffyrdd o warchod neu wella cymeriad arbennig. Bydd sylfaen fwy cadarn i bolisiau'r cynllun datblygu lleol a phenderfyniadau rheoli datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd cadwraeth ac yn gwneud cyfraniadau mwy cadarnhaol i nodau hirdymor os yw cymeriad pob ardal gadwraeth wedi'i ddiffinio ac os yw'r polisiau er mwyn ei gwarchod a'i gwella wedi'u nodi'n fanwl mewn cynllun rheoli. Gellir hefyd ystyried a ddylid cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn yr ardaloedd hyn.

6.5 Oherwydd eu natur, mae gan ardaloedd cadwraeth nifer o randdeiliaid a dylai'r trefniadau rheoli gynnig cyfleoedd i gyfrannu at y cynllun a gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â'r

broses honno. Bydd cynigion i warchod a gwella ar eu mwyaf effeithiol pan mae pob adran yn y cyngor yn deall arwyddocâd dynodi a gweithio gyda'n gilydd. Felly, awgrymir yn gryf dull gweithredu gyda thîm datblygu sy'n cydnabod cyfraniad adrannau eraill, megis priffyrdd a thai.

6.6 Gall cynlluniau datblygu gynnwys polisiau sy'n benodol i'r ardal leol ar gyfer diogelu neu wella ardaloedd cadwraeth. Dan amgylchiadau o'r fath, dylai'r cynllun datblygu lleol fod yn glir y bydd y cynigion i ddatblygu yn cael eu beirniadu mewn perthynas â'u heffaith ar gymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth fel y nodir yn y ddogfen werthuso a rheoli. Bydd cynigion datblygu penodol mewn ardal gadwraeth, gan gynnwys darparu un neu fwy o dai preswyl, darparu adeilad neu adeiladau y mae'r arwyneb llawr a fydd yn cael ei greu yn sgil y datblygiad yn mesur 100 metr sgwâr neu fwy, angen datganiad dylunio a mynediad.

6.7 Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys canolfannau masnachol trefi a phentrefi. Yn gyffredinol, bydd pwyslais ar reolaeth reoledig a chadarnhaol o newid sy'n annog bywiogrwydd economaidd a chynnwrf cymdeithasol a diwylliannol a chydysnio â phensaernïaeth arbennig yr ardal ac ansawdd hanesyddol. Mae nifer o ardaloedd cadwraeth yn cynnwys safleoedd neu adeiladau nad ydynt yn gwneud unrhyw gyfraniad at gymeriad neu ymddangosiad yr ardal, neu'n tynnu oddi ar yr elfennau hynny; dylai eu disodli fod yn ysgogiad i ddyluniad dychmygol, o ansawdd dda ac yn gyfle i wella'r ardal.

6.8 Un o ddibenion system rheoli hysbysebu yw annog yr arddangosiad o hysbysebion awyr agored sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at ymddangosiad yr amgylchedd. Rhesymol yw disgwyl mai dyletswydd yr awdurdod cynllunio lleol yw talu sylw arbennig i ddymunoldeb cadw neu wella cymeriad neu ymddangosiad ardal gadwraeth a fydd yn arwain, yn ymarferol, at safonau mwy manwl pan mae'r awdurdod yn ystyried a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer hysbyseb arfaethedig mewn ardal o'r fath ai peidio.

6.9 Yn ardaloedd cadwraeth, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio lleol fod yn hyblyg wrth ddefnyddio eu grymoedd dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992, oherwydd bod nifer o ardaloedd yn cynnwys safleoedd manwerthu a masnachol yn amrywio o siopau bach i ganolfannau masnachol llewyrchus. Mae hysbysebu yn yr awyr agored yn hanfodol ar gyfer gweithgarwch masnachol. Fel arfer, bydd llwyddiant busnesau lleol yn helpu perchnogion a thenantiaid safleoedd masnachol i gynnal cyflwr da adeiladau a sicrhau eu bod yn ddeniadol.

6.10 Mae angen Caniatâd Ardal Gadwraeth er mwyn dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth, er bod rhai eithriadau. Yn y cyd-destun hwn, rheol y llysoedd yw bod dymchwel yn golygu tynnu adeilad i lawr nes ei fod wedi'i ddinistrio'n llwyr neu i raddau sylweddol iawn o leiaf. Felly, gallai gwaredu adeilad cyfan ac eithrio ei ffasâd gyfrif fel dymchwel.

6.11 Gall Gweinidogion Cymru bennu nad oes angen Caniatâd Ardal Gadwraeth ar gyfer disgrifiadau penodol o adeiladau ac mae Gweinidogion Cymru wedi nodi nad yw caniatâd Ardal Gadwraeth yn ofynnol ar gyfer rhai gweithiau. Mae'r gweithiau hyn yn cynnwys dymchwel adeilad sydd â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 metr ciwbig a dymchwel nodwedd derfyn adeiledig sy'n llai nag un metr o uchder lle mae'n ffinio â phriffordd, dyfrffordd neu fan agored, neu'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall. Golyga hyn na fydd nifer o ddarnau o waith sy'n cynnwys dymchwel deunydd rhan o adeilad yn cael eu hystyried yn waith dymchwel ac ni fydd angen caniatâd ardal gadwraeth i'w gwneud.

6.12 Rhaid i geisiadau am ganiatâd i ddymchwel gael eu cyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol. Bydd ceisiadau am Ganiatâd Ardal Gadwraeth yn gofyn datganiad effaith ar dreftadaeth, a ddylai egluro pam mae'r dymchwel yn ddymunol neu'n angenrheidiol ochr yn ochr ag asesiad ehangach o effaith y cynigion ar gymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.13 Dylai fod rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw adeiladau sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad neu olwg ardal gadwraeth. Dylai cynigion i ddymchwel adeiladau o'r fath gael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf eang â chynigion i ddymchwel adeiladau rhestredig (gweler 5.15). Yn achosion, lle ystyrir bod adeilad yn gwneud mân gyfraniad neu dim cyfraniad o gwbl, fel arfer bydd awdurdod cynllunio lleol angen gwybodaeth lawn ynghylch yr hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer y safle ar ôl dymchwel. Ni ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel

heb gynlluniau derbyniol a manwl ar gyfer ailddefnyddio'r safle oni bai bod yr ailddatblygiad ei hun yn annymunol. Mae gan yr awdurdod cynllunio lleol yr hawl i ystyried egwyddorion eang datblygiad arfaethedig, megis ei raddfa, maint, a màs, wrth bennu a ddylid rhoi caniatâd i ddymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth.

6.14 Gall fod yn briodol cyflwyno cyflwr ar roi caniatâd i ddymchwel fel nad yw'n digwydd nes y ceir caniatâd cynllunio llawn ac ar ôl gwneud contract ar gyfer cyflawni'r datblygiad.

6.15 Mae gan awdurdodau cynllunio lleol y grym i warchod coed a choetiroedd drwy wneud gorchmynion cadw coed. Yn ogystal, mae darpariaeth arbennig ar gyfer coed mewn ardaloedd cadwraeth nad ydynt yn destun gorchmynion cadw coed. Mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cynnig torri i lawr, difrigo neu docio coeden mewn ardal gadwraeth roi chwe wythnos o rybudd i'r awdurdod cynllunio lleol, ac yn ystod yr amser hwnnw gall yr awdurdod cynllunio lleol benderfynu a ddylid amddiffyn y goeden honno gyda gorchymyn cadw coed.

6.16 Wrth ystyried a ddylid ymestyn amddiffyniad i goed mewn ardaloedd cadwraeth, dylai awdurdodau cynllunio lleol bob amser ystyried cyfraniad gweledol, hanesyddol ac amwynder coed. Mewn rhai achosion, gallai plannu coed newydd neu ail-blannu fod yn ddymunol lle byddai hynny'n gyson â chymeriad neu ymddangosiad yr ardal.

6.17 Mae gan orfodaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran gwarchod ardaloedd cadwraeth a dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried dull gweithredu mwy rhagweithiol, gan gynnwys monitro gweithgarwch datblygu a sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau rheolyddion rheoleiddio, yn hytrach nag ymchwilio pan gyflwynir cwyn ffurfiol. Bydd dull cadarnhaol a gweithredol o orfodi yn helpu i leihau'r nifer o droseddau a sicrhau gwelliannau parhaus yn yr ansawdd amgylcheddol.

6.18 Mae gan ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau penodol neu fethiant awdurdod cynllunio lleol i wneud penderfyniad ynghylch caniatâd i ardal gadwraeth. Gellir gwneud apel dan yr amgylchiadau canlynol: Pan mae awdurdod cynllunio lleol: Yn gwarchod cais am ganiatâd ardal gadwraeth; Yn caniatáu cais am ganiatâd ardal gadwraeth gydag amodau; Yn gwrthod cais i amrywio neu ryddhau amodau sydd ynghlwm â chaniatâd ardal gadwraeth; Yn gwrthod cais am ganiatâd sy'n ofynnol drwy amod a gyflwynwyd wrth roi caniatâd ardal gadwraeth; neu'n Methu â phennu cais am ganiatâd cyn pen 8 wythnos o'i ddilysu gan yr awdurdod cynllunio lleol.

6.19 Cyflwynir apeliadau i Weinidogion Cymru ar ffurflen cyn pen chwe mis o'r ymgeisydd yn cael hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod cynllunio lleol.

Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru, Cadw, 2017

Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn ategu at Bolisi Cynllunio Cymru¹ a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn nodi cyd-destun y polisi a dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol i ddynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae hefyd yn adnabod agweddau allweddol ar arfer dda o ran eu dynodi a'u gwerthuso, gan gynnwys cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygiad polisiâu lleol er rheolaeth gadarnhaol a gwelliant fel bod eu cymeriad a'u hymddangosiad yn cael eu cynnal a'u gwella. Dylai hefyd helpu awdurdodau cynllunio i ystyried Egwyddorion Cadwraeth Cadw ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy (Egwyddorion Cadwraeth) i gyflawni newid sensitif o ansawdd dda.

